Cyfres yr 20fed Ganrif.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

Yr Ymofynydd.

Cyf. 5. Rhif 8.] AWST, 1905. [Pris 2c.

CYNWYSIAD.

Y Cymdeithas Undodaidd Gymreig
(Adroddiad yr Ysgrifenydd a Hanes y Cyfarfod Blynyddol).

Sirioldeb Crefyddol.
Parch. E. Ceredig Jones, M.A.

O For i Deifi.

Penillion.
Cynfelyn. Pisgah.

Cymanfa Ganu 1905.

Marwgofion.

Manion ac Hanesion.

Y GWIRIONEDD
A'CH RHYDDHA CHWI.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

YR YMOFYNYDD.

Golygwyr—

W. JAMES, B.A., J.P., a T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.
Barddoniaeth—SARNICOL, County School, Abertillery.

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2/6 y flwyddyn. Danfonir 6 copi a ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau.

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygwyr erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed. Gyrer y Farddoniaeth i Sarnicol, County School Abertillery, Mon.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

TALIADAU.

J.D., Llanwnen; J.D., Regent Street, Llundain; J.J., Bargoed; D.T., Prengwyn; Mrs. E., Esgerwenfawr; D.M.J., Cwrtnewydd; D.J., Rhydfene; J.T., Vrondoley; J.R., Pontbrenllwyd; S.D., Coedpark; Mrs. J., Pentwyn; E.J.J., Barnsbury; J.E., Newport; H.H., Birmingham.

LLYFRAU CYHOEDDEDIG AC AR WERTH GAN

J. D. LEWIS, Gwasg Gomer, Llandyssul.

WEDROSIA:

Yn cynwys y Nofel Fuddugol yn Eisteddfod Mountain Ash, gan T. WEDROS EVANS. Un o'r llyfrau mwyaf difyr yn yr iaith Gymraeg.

PRIS 6c.; trwy y *Post*, 7c.

Hanes PLWYFI LLANGELER a PHENBOYR

Gan DANIEL E. JONES.

Buddugol yn Eisteddfod Drefach-Velindre, 1897. Wedi ei adolygu a'i helaethu, a chyda *Map* o'r Plwyfi.

Yn rhad trwy y *Post* am 3s. 6ch.

OLD SHOP, CRIBYN.

D. J. THOMAS,

General Draper, Milliner, Grocer, Ironmonger, and Boot and Shoe Merchant.

Agent for E. W. PRATT & Co., Bristol, Manufacturers of the well-known "Holdfast" Brand of Boots and Shoes.

SHOP Y JONES, LLANDYSSUL.

BEN JONES,

DRAPER, GROCER, IRONMONGER, &c.

Ladies' Jackets and Gent's Coats of every description at Lowest Prices.

Guns from £1 to £10. Cartridges by all the well-known makers

Try our Special Indian Tip Tea 1s. 8d. per lb.

Ardwyn, Lampeter.

TIMOTHY RICHARDS,

Ironmonger and General Merchant.

Agent for Bradbury's Sewing Machines; J. Pullar & Sons, Dye Works, Perth; J. & B. White's Portland Cement; and for all kinds of Agricultural Implements.

Enormous Stock of Hanging Papers always on hand.

Guns, Pistols and Ammunition by John Hall, Curtis & Harvey, Eley's Nobel's and Kynock's.

FENCING, BARB AND NETTING WIRES.

District Agent for British and Foreign Bible Society.

CHANNING HOUSE,

High School for Girls and Unitarian Boarding School,

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s., including Free Laundry; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Hockey.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., F. Preston, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Mrs. W. A. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding.

ATHROFA PRIFYSGOL CYMRU.

ABERYSTWYTH.

(Un o Golegau Prifysgol Cymru.)

Llywydd: Y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Rendel
Prifathraw: T. F. Roberts, M.A. (Oxon.).

Cynwysa y cwrs o Addysg y parotoad angenrheidiol am Raddau yn y Celfyddydau (Arts), Gwyddoniaeth a Chyfraith yn Mhrifysgol Cymru a bydd hefyd yn wasanaethgar i Efrydwyr yn parotoi ar gyfer Graddau yn y Celfyddydau (Arts) ac mewn Gwyddoniaeth yn Mhrifysgol Llundain, ar gyfer arholiadau yn Mhrifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt yn gystal ac astudiaeth Feddygol yno ac mewn Prifysgolion eraill.

Yn yr Adran Amaethyddol trefnir parotoad neillduol ar gyfer arholiadau y Gymdeithas Amaethyddol a Thystysgrif y Surveyors' Institution.

Y Tal Blynyddol yn Adranau y Celfyddydau a Gwyddor yw £10 gydag ychydig yn rhagor am Addysg Ymarferol yn y 'Laboratories.'

Dyfarnir Ysgoloriaethau gwerth o £40 i £10 ar ddechreu'r tymhor yn mis Medi bob blwyddyn.

Perthyn i'r Coleg 'Gymnasium,' Cychod, 'Recreation Grounds,' &c.

Lletya'r Efrydwyr mewn tai yn y Dref neu yn Neuadd yr Efrydwyr—y Proff. Marshall, Warden, a'r Efrydesau mewn neuadd eang Alexandra Hall, o dan arolygiaeth Miss E. A. Carpenter.

Am Prospectus a manylion neillduol ynghylch yr Adranau Normalaidd, ac Amaethyddol ac Adran yr Athrawon Canolradd, ymofyner a

J. H. Davies, Registrar.

T. E. JONES & CO.,

ESTABLISHED 1852.

Corn Merchants, Wholesale and Retail Grocers,

The Stores and Ffrwdwen Mills, Llandyssul.

Wheat Plant of the most modern type newly set up.

Farmers' Wheat manufactured into first class Flour.

Home Brand Flour as well as Healing's retailed at the lowest prices.

London House, Llandyssul.

Children's Millinery & Costumes always in Stock.

B. MORRIS,

MILLINER,
& FANCY DRAPER,

Wedding & Mourning . . . . Orders Promptly Executed.

Grand Assortment of Summer Millinery now shown.

Ordination Outfits Completed.

W. JONES,

Civil, Military, & Clerical Tailor,

LINCOLN HOUSE, Llandyssul.

Liveries and Breeches Making.

An assortment of Raincoats, Waterproof Coats & Ladies' Jackets, and Boys' Ready-made Suits always in Stock.

CHRISTR. THOMAS & BROS. Ltd., Bristol,

Have the Leading Reputation in Wales for their

HOUSEHOLD & TOILET SOAPS.

THE FAVOURITE QUALITY IS

CHRISTR. THOMAS & BROS. LTD., BEST PALE

Which, as well as the other sorts, can be obtained, wholesale and retail, from

T. E. JONES & Co., LLANDYSSUL.



"Our Watches have stood the Test of Time."

They are made of honest materials and perfect workmanship.

They are strictly moderate in price.

They are fully guaranteed, and are backed up by an excellent reputation of

Forty Years' Standing.

Call and inspect our varied Stock, or write for a selection to be sent free "On approval" at the shortest notice.

D. JONES & SON,

WATCHMAKERS, JEWELLERS, & OPTICIANS,

LLANDYSSUL.

We have always on view a large and tasty Stock of Wedding and Birthday Presents in Gold, Silver, and Electro-Plate.

Y "Postal Mission" Undodaidd Cymreig.

Ceir y Traethodynau (*Tracts*) canlynol yn rhad trwy y *Post*—

"Y Gwyliedydd, beth am y nos?" Gan y Parch. R. J. Jones, M.A.

"Crefydd Cymru Fydd." Gan y Parch. W. James, B.A.

"Lle Teimlad a Rheswm mewn Crefydd," a "Ddoe, Heddyw, ac Yfory mewn Crefydd." Y ddau gan y Parch. W. Tudor Jones, F.R.G.S.

"Tueddiadau'r Oes." Gan y Parch. D. Evans, Cribyn.

Rhoddir benthyg y ddau lyfryn canlynol yn rhydd trwy'r Post—

"Banau Ffydd Undodwr." Gan Dr. Freeman Clarke.

"Yn ol at Iesu." Gan y Parch. R. A. Armstrong, B.A.

Y ddau yn yr iaith Gymraeg. Pris yr olaf yw 3c.

Anfoner at y Parch. LEWIS WILLIAMS, Talsarn, R.S.O., Card.

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] AWST, 1905. [CYF V. RHIF 8

Y GYMDEITHAS UNDODAIDD GYMREIG.

Cyfarfod y Pwyllgor yn Llwynrhydowen, Bore Iau, Meh. 29, 1905.

ADRODDIAD YR YSGRIFENYDD 1904—1905.

MAE dau fater o'r pwys blaenaf wedi bod yn cyffroi meddwl Cymru yn ystod y flwyddyn sydd wedi pasio, ac ni synwn pe byddent yn aros mewn hanes fel prif ffeithiau Cymreig blynyddoedd dechreuol y ganrif. Edrychwn yn gyntaf ar gwestiwn Addysg, pwnc o'r pwysigrwydd mwyaf gyda golwg ar hawddfyd y genedl, ond wedi ei gymysgu a nwydau a rhagfarnau crefyddol i'r fath raddau, fel mae bron yn anobeithiol i'w benderfynu ar delerau teg a boddhaol. Nid oes reswm na chyfiawnder yn y gyfundrefn fel y bodola oddiar y flwyddyn 1870; ac nid yw deddfau newydd y Llywodraeth Doriaidd bresenol ond dwyn i fwy o amlygrwydd nag o'r blaen y tryblith o anhegwch a ffolineb mae ein hymrysonau crefyddol yn atebol am dano.

Mae pob argoel yn awr y bydd Gweinyddiaeth Ryddfrydig, sylfaenedig ar farn gyhoeddus nas gellir amheu ei dedfryd, mewn gallu heb fod yn hir, ac yr ysgubir ymaith yr anghyfiawnder a wna fwyafrif mawr ysgolion y wlad yn faes proselytiaeth Eglwysig. Ond beth wedi'n? O'm rhan fy hun, rhaid i mi ddweyd fod fy sêl a'm brwdfrydedd i yn bersonol dros y *polisi* Cymreig, fel ei gelwir, yn cael ei dymheru i raddau pell gan ogwyddiad pethau fel y daw i'r

golwg yn mhlith yr Enwadau mawr Ymneillduol. Ac yn wyneb y gogwyddiad hwnw, dylem ni, fel Undodiaid, yn gystal ag ereill sydd i fesur mewn cydymdeimlad a'r egwyddorion y safwn ni drostynt, fod yn ofalus rhag i ni syrthio o'r ffrempan i'r tân. Yr unig ffordd allan o'r anhawsder, fel y tybiwn ni, yw gwneud i ffwrdd yn gyfangwbl ag addysg Feiblaidd a chrefyddol o ysgolion y llywodraeth, am y rheswm digonol nas gallwn byth gytuno ar gynllun a fydd yn foddhaol i bawb *all round*. Yn enw pob rheswm, paham nas gellid gadael yr holl gwestiwn yn llaw rhieni plant, a'r holl gyfryngau hyny ydynt ar waith yn mhob cwr o'r wlad i ddysgu crefydd i'r bobl? A ydym ni i gredu fod holl beirianwaith Eglwysig Prydain Fawr gyda'i chyfoeth difesur yn aur ac arian, yn adeiladau, yn sefydliadau o bob math, yn offeiriaid ac yn weinidogion, fod hwn i gyd yn anigonol ar gyfer addysg grefyddol y dô sydd yn codi?

Ond ni fyn rhai o'r Enwadau mawrion gredu hyny o gwbl, a byddant yn sicr o wneud eu goreu, fel y dengys yr arwyddion yn ddigon amlwg yn barod, i ddwyn eu cynllun eu hunain o addysg grefyddol i'r ysgolion. Dyna *bolisi* cyngrair yr Eglwysi Rhyddion, fel mae'n amlwg oddiwrth yr hyn a ymddangosodd yn y papyrau yn ddiweddar fel ffrwyth datganiad neillduol gan y Llywydd, Dr. Horton. Gŵyr pawb sydd yn gyfarwydd a'r *Methodist Times* beth yw safle yr enwad Ymneillduol mwyaf poblogaidd a dylanwadol yn Lloegr—y Methodistiaid Wesleyaidd. Mae yn selog tuhwnt dros addysg grefyddol yn yr ysgolion. Yr wythnos cyn y diweddaf, a daw hyny adref atom ni yn Nghymru yn fwy na dim arall, yn Nghymanfa Gyffredinol y Methodistiaid Calfinaidd yn Llerpwl, pasiwyd, mewn ffordd yn unfrydol, ar ol araeth danllyd gan y Parch. J. Puleston Jones. M.A., eu bod hwy fel corph yn sefyll dros sefydlu addysg Feiblaidd yn yr holl ysgolion, ac yn sicr fydd hi ddim yn addysg Feiblaidd ag y gallwn ni gymeradwyo.

Yr ydych yn gwybod am safle y Methodistiaid yn Sir Aberteifi. Hwy yw y corph pwysicaf a mwyaf dylanwadol yn y Sir. Dywedir mai hwy sydd yn rheoli y Cynghor Sirol, ac os felly y Pwyllgor Addysg hefyd. Beth fydd y canlyniad pan y pasir deddf newydd addysg o dan y Weinyddiaeth Ryddfrydig un o'r blynyddoedd nesaf yma, ac y trosglwyddir yn debygol y cwestiwn o drefniadau addysg grefyddol o'r Senedd i'r awdurdodau lleol? Sut y bydd hi yn nhiriogaeth "Yr Ysmotyn Du," ag mae ei ysgolion, ar wahan oddiwrth y rhai Eglwysig, wedi bod bob amser yn rhydd o bob ryw ymyraeth grefyddol? A oes dim perygl i "Hyfforddwr Charles"—llawlyfr plant a phobl ieuainc Ysgolion Sabbothol y Methodistiaid, neu rhyw grynhodeb yn cynwys yr un egwyddorion gael ei ddwyn i mewn i fod

yn safon addysg Feiblaidd ysgolion y Sir? Caiff plant Undodaidd wedi'n eu dysgu, yr hyn na ddysgir iddynt yn awr, fod y byd wedi ei greu mewn chwe' diwrnod, mai Adda oedd y dyn cyntaf, ac Efa oedd y wraig gyntaf, a bod Duw wedi gwneud Efa "o asen Adda tra yr oedd efe yn cysgu"; fod "mwy nag un person yn y Drindod," ac mai'r prawf dros hyny ydyw'r adnod hono nad yw'n perthyn i'r Beibl o gwbl—"Y mae tri yn tystiolaethu yn y nef: y Tad, y Gair a'r Yspryd Glan; a'r tri hyn un ydynt," ac yn y blaen felly hyd ddiwedd y benod. Dim ond awgrym felly gyda golwg ar yr argyfwng posibl sydd yn ein harcs, pan y gelwir arnom i gynyg *passive resistance* i ormes Ymneillduol a ddichon fenthyca'r arfau ag y bydd Eglwys Loegr wedi cael ei gorfodi i'w taflu ymaith. Onid yw yn rhyfedd? Meddyliwch am y sefyllfa—Ymneillduwyr a'u holl egni yn gwrthwynebu addysg grefyddol dydd Sul ar gost y wladwriaeth yn yr Eglwysi Sefydledig, ac yn barod i'w derbyn ar eu telerau eu hunain bore dydd Llun yn ysgolion y llywodraeth.

Gair yn mhellach am y DIWYGIAD. Drwg genyf siarad am dano fel am rywbeth tu allan i'n profiad ni, gan mwyaf. O braidd mae ei ddylanwad wedi cyffwrdd a'n heglwysi ni. Disgynodd rhai dyferynau o gynffon y gawod ar ambell i lanerch, ond nid yw y dylanwad a gynyrchwyd yn ddigon mawr i'w werthfawrogi mewn ystadegaeth enwadol. Yr oedd ei ddulliau mor ddieithr i ni; ei safle athrawiaethol yn gwrthdaraw mor bell y rhagfarnau a'r argyhoeddiadau sydd wedi eu gwreiddio yn rhy ddwfn ynom i'w hanwybyddu, a hawliau rhyfedd y prif oruchwyliwr yn y mudiad yn pellhau ein cydymdeimlad i'r fath raddau, fel nad ydym wedi bod yn ddim ond edrychwyr, tra mae un o benodau mwyaf pwysig hanes crefyddol Cymru wedi bod yn ysgrifenu ei hun.

Ar yr un pryd, nis gallwn fel edrychwyr lai na chanmawl y gwaith da sydd wedi ei wneud, er cymaint o bosibl ydym yn dueddol i feirniadu y Diwygiad mewn llawer o'i ffurfiau. Yn y lle cyntaf, mae wedi deffroi bywyd crefyddol Cymru, fel na wnaeth ei holl beirianwaith Eglwysig ac Enwadol am ddeugain mlynedd. Teimlir fod y byd anweledig ac ysprydol, Duw a Christ, deddf ac efengyl, bywyd ac anfarwoldeb, yn fwy o *realities* i filoedd o bobl nag oeddent er ys blwyddyn yn ol; ac fel canlyniad mae y genedl wedi ei derchafu i lefel uwch yn ei pherthynas â Duw, a'i hawliau Ef i gymeryd meddiant o'i bywyd cyfan fel rhywbeth i'w gysegru yn hollol i'w wasanaeth.

Yn yr ail le, mae dyledswyddau y bywyd sydd yr awrhon, gofynion Teyrnas Dduw ar y ddaear, wedi cael eu codi i sylw,—nid

yn gymaint iachawdwriaeth yn y dyfodol a diogelwch rhag rhyw uffern dragwyddol o wae mewn byd arall. Mae dynion, meddir, wedi eu sobri, cymeriadau rhyfygus ac anystyriol wedi eu mouldio at amcanion gwell, hadau Teyrnas Nefoedd wedi eu planu mewn miloedd o deuluoedd, a'r berthynas anatodol hono rhwng crefydd a phurdeb a sancteiddrwydd bywyd wedi ei wneud yn argyhoeddiad arosol. Er cymaint o ganu sydd wedi bod am iachawdwriaeth trwy y gwaed byth a hefyd, mae ffrwyth ymarferol y Diwygiad yn aros, a dyma fe—

"Y dwylaw glân a'r galon bur
A seiliant dŷ ar Salem dir."

Peth arall, a bydd hyny yn fendith anhraethol i Gymru, mae lle i obeithio, fel un o ffrwythau y Diwygiad, y bydd i'r chwerwder a'r eiddigedd enwadol sydd wedi bod yn bla yn y wlad i gael eu tyneru, ac y daw pobl i gredu nad yw'r mân wahaniaethau sectol sydd wedi planu gwersylloedd cenfigenus ac ymosodol yn mhob tref a chymydogaeth, yn ddim mewn cymhariaeth i'r ddyledswydd sydd yn gorphwys ar bawb "i wneuthur barn, hoffi trugaredd ac ymostwng i rodio gyda Duw," ac i ddysgu ereill felly. Dyma'r hen Efengyl wedi'r cwbl, ac nid yw'r acenion nefol a glywyd unwaith ar ben y mynydd, ac wrth draeth y môr, a'r rhai a ymddiriedwyd i galonau gwresog fel maent ar glawr hyd y dydd hwn, yn ddim ond adsain o'r hen genhadwri a losgai unwaith yn mynwes y proffwyd. Ar wahan i fudiadau mawrion a gyffroant wlad gyfan, ac a'r rhai nis gallwn feddu y cydymdeimlad a'n gwna ni i daflu ein hunain gorph ac enaid i'w helpu yn mlaen, y cwestiwn mawr i ni heddyw, wrth adolygu gwaith y flwyddyn sydd wedi pasio, ydyw hwn, A ydym ni yn gwneud ein dyledswydd yn ol y ffordd a elwir yn heresi, a chyda'r dulliau gwylaidd yr ydym wedi fabwysiadu, at yr Efengyl hon; a ydym ni yn cysegru y goreu sydd ynom a'r goreu sydd yn ein cyfleusderau a'n hamgylchiadau i wneud y gair a ddaeth allan o enau y Proffwyd, ac a wnaed yn gnawd yn mywyd a marwolaeth yr Athraw mawr, yn allu Duw er iachawdwriaeth dynion?

Y Dynol a'r Dwyfol.—Meddai y Parch. William Furness mewn llythyr at y Parch. Robert Collyer, wrth sylwi ar y gwahaniaeth a wnaed mewn llyfr oedd newydd gael ei gyhoeddi ar hanes Iesu, rhwng y dwyfol a'r dynol yn ei natur: "Mae'n ddrwg genyf am y gwahaniaethu yma, am fod Iesu y bod *mwyaf* dynol a fu erioed, ac *am hyny* y mwyaf dwyfol. Yr oedd ei ddwyfoldeb yn gorwedd yn ei ddynoliaeth bur."

SIRIOLDEB CREFYDDOL.

Anerchiad a draddodwyd yn Nghyfarfod Blynyddol y Gymdeithas Undodaidd Gymreig yn Llwynrhydowen, Gorph. 29, 1905, gan y Llywydd—

Y Parch. E. Ceredig Jones, M.A., Bradford.

Fy Anwyl Gyfeillion,

Ychydig amser yn ol gofynais i wr ag sydd yn cymeryd dyddordeb mewn pob peth Cymreig beth a ystyriai y gwendid mwyaf yn Nghrefydd Cymru. "Diffyg Siriol-deb," meddai. Ar ol talu llawer o sylw i'r cwestiwn, yr wyf yn ystyried fod ei farn yn hollol gywir. Felly ystyriaf mai nid anfuddiol fyddai i mi eich anerch heddyw ar y testyn: "Sirioldeb Crefyddol." Nid oes dim a rydd brawf cryfach o sylweddolrwydd ein crefydd na'n hymagweddiad siriol yn mhlith holl dreialon ac anhawsderau bywyd. Yr ydym ni yr Undodiaid yn proffesu Ffydd a allwn alw yn briodol yn "newyddion da o lawenydd mawr"; ac mae'r dyfyniad hwn yn awgrymiadol iawn o'r rhinwedd gymdeithasol, "Sirioldeb." Mae hon yn rhinwedd a'n cynorthwya yn wastadol, a pharotoa ni ar gyfer y dyledswyddau caletaf. Fel y dywed y bardd Shakespeare: "Y galon lon a deithia'n mlaen drwy'r dydd; un filltir fach yn flin wna'r galon brudd." I fesur mae "Sirioldeb" yn gyneddf naturiol ynom; ac fel y gweddill o alluoedd uchaf yr enaid gellir gwrteithio tymher siriol. Mae yn ffaith wybyddus y byddai i'r galluoedd ddirywio a d'od yn hollol ddiwerth i ni fel ffynonellau dedwyddwch pe na wnaem eu harfer yn barhaus gydag ymdrech yr ewyllys. Mae yn brif nod ein bywyd i atal hyn rhag cymeryd lle; ac mae y gwahanol rinweddau yn ddichonadwy yn unig lle mae gwyr a gwragedd yn ymdrechu gwneud defnydd priodol o'u cyneddfau. Mae yn eglur fod y Duw Goruchaf wedi bwriadu i ni fod yn siriol yn ein hymarweddiad oddiwrth y ffaith mai "Sirioldeb" yw un o neillduolion mwyaf tarawiadol a boddhaol plant bychain a phobl ieuainc. Mae plant yn cael eu harwain i mewn i fyd dedwydd, ac ni ddisgwylir iddynt syrthio o'r ystad hono. Pan fyddo'r meddwl yn rhydd oddiwrth ofalon trymion, a'r gydwybod yn ddidramgwydd, pan fyddo'r galluoedd meddyliol yn glir a chraffus a'r serchiadau yn gryf, pan fyddo'r aelodau yn ystwyth, a'r holl gorph yn llawn o fwyniant bywiol, nid yw yn ymdrech galed i gadw ein hyspryd yn siriol. Am y rheswm hwn mae boreu ein hoes yn dymhor dedwydd iawn. Mae y byd o'n blaen yn ddysglaer gan belydrau gobaith, ac mae ein holl freuddwydion tymhorol am Baradwys ddaearol. Gellwch chwi y rhai ydych yn awr yn y cyflwr hapus hwn aros yn eich Paradwys tra byddoch byw. Gall eraill ag ydynt wedi ei cholli, ei hadenill drwy ymdrechu ymdrech deg drwy y gweddill o'u dyddiau.

Rhy fynych meddylir y dynoda "Sirioldeb" yw fath o ysgafnder arwynebol, yr hwn a dardd yn benaf oddiar ddiffyg dyddordeb yn ngorchwylion pwysig y byd llafurus hwn. Mewn cyflwr o'r fath yna arddengys y wên anaturiol ar y wynebpryd a'r chwerthiniad sych a digalon, yn aml iawn, chwerwder mewnol poenus.

Ar y llaw arall mae gwir "Sirioldeb" yn tarddu oddiar yr ymwybodolrwydd ein bod wedi cyflawnu ein dyledswydd. Mae i'w ganfod lle bynag y meithrinir tynerwch, a serch at bob peth da drwy gydol bywyd. Cedwir tegwch diniweidrwydd rhag syrthio, a pharha yr holl natur yn fywiog a chalonog, drwy holl daith bywyd. Flynyddau yn ol cymerai gwraig arni fod yn alluog i roddi cyfarwyddyd pa fodd y gallai pobl aros yn ieuanc a phrydferth am byth; ond mae arnaf ofn mae gau-feddyges ydoedd. Yr unig beth a all gadw gwendidau henaint draw ydyw "calon lawen" yr hon "a wna les fel meddyginiaeth." Mae yn llawenydd nid yn unig i'w pherchenog, ond i bawb a ddaw o dan ei dylanwad tesog. Felly mae y dyn siriol yn gynorthwy mawr yn y gymydogaeth lle mae yn byw. Nid yw yn anobeithio am un achos da. Mae ef yn obeithiol pan gylchynir ef gan anhawsderau a fyddent yn ddigon i barlysu nerth marwolion cyffredin. Dywed wrth ei hun:

"Er mor dywyll ydyw'r cymyl,
Haulwen desog eura'u hymyl."

Nid yw byth yn colli golwg ar y ffaith fod y bywyd hwn yn werthfawr yn yr amgylchiadau mwyaf profedigaethus, a'i fod wedi ei anfon yma i gasglu pelydrau dedwyddwch ar ei ffordd i'r byd tragwyddol. Gadewch i ni yn awr gymhwyso y Rinwedd Gymdeithasol, "Sirioldeb" at wahanol agweddau ein bywyd ar y ddaear, fel y cawn weled yn eglur y doethineb a'r dyledswydd o'i meithrin er ein budd personol yn gystal ag er daioni ereill.

Yn gyntaf oll gadewch i ni olrhain y berthynas a fodola rhwng Sirioldeb a'n proffes grefyddol. Mae rhai athrawiaethau wedi dringo i mewn i'r Eglwys Gristionogol, megys Cwymp Dyn, Pechod Gwreiddiol, a Phoenedigaeth Dragwyddol, y rhai a'i gwnant yn anmhosibl i'r cyfryw a'i coleddant deimlo yn llawen neu siriol. Nis gallai neb gyda gronyn o ddynoliaeth ynddo fod yn llawen ei galon pe credai yn wirioneddol y byddai i filiynau aneirif o'i gyd-greaduriaid gael eu halltudio yn oes oesoedd oddiwrth gariad a thrugaredd Duw. Ond mor wahanol ydyw gyda ni yr Undodiaid y rhai ydym yn credu fod Duw yn Dad i holl blant dynion ac fod ei Gariad yn anherfynol ddwfn a thyner. Pan ystyriwn mai Cariad yw deddf fawr y bydysawd, mae prudd-der yn diflanu fel cymylau'r nos o flaen codiad yr haul.

"O'i gariad yn y dechreu
Sylfaenodd Duw y byd;
O'i gariad dianwadal
Mae'n cynal hwn o hyd;
O'i gariad mae'n rhoi cerydd,
O'i gariad mae'n rhoi hedd;
O'i gariad bydd yn cospi
Mewn byd tu draw i'r bedd."

Pan deimlwn fod Awdwr mawr yr holl fydoedd yn Dad tyner i ni, daw yr holl fydysawd yn gartrefle sanctaidd Cariad i ni. Pa ddeddf naturiol bynag a hawlia ein hedmygedd, pa olygfa bynag a foddia ein chwaeth, pa beroriaeth bynag a wna i'n henaid chwyddo gan fwynhad a'n codi i nefoedd o lawenydd ysprydol, gallwn ystyried yr oll yn brawf o hael ddaioni Duw. Nid yn unig yn mhlith aelodau y teulu dynol, ond hefyd yn mysg creaduriaid israddol gwelwn lawer iawn o ddedwyddwch gwir sylweddol. Ewch i'r meusydd ar foreu teg o haf, pan ymddengys holl natur yn ei gogoniant a phob peth byw mewn llesmair o ddedwyddwch. Mae caniadau yr adar, si boddlongar y gwenyn, a mil o arwyddion ereill o foddhad yn mhlith llwythau y ddaear, yr awyr a'r dwfr, yn ddigon i'n hargyhoeddi mai da yw Awdwr y bydysawd, a'i fod yn ei holl ymddygiadau tuag at ei greaduriaid, yn gwneud y cyfan yn unol â'i Gariad anherfynol. Pan y cawn lwyr afael ar y meddylddrych hwn—na fydd i'r Duw a'n gwnaeth byth i'n hanghofio—byddwn yn alluog i fyned oddiamgylch ein

dyledswyddau yn ddiofn a chyda "chalon lawen."

Pan welwn y Daioni Tragwyddol yn datguddio ei hun i ni yn harddwch yr haf ac yn llawnder yr Hydref, yn y serch a'r cariad a drigiana yn ein calonau ac a'n huna a'n gilydd yn nghwlwm tangnefedd ; yn y celfau, y gwyddorau, a gwawriad gwirioneddau uwch ; yn nghydymdeimlad a haelfrydedd pobl oreu y byd, ac yn yr aneirif drugareddau a gawodir arnom o ddydd i ddydd, mae ein holl amheuon yn myned ar ffo. Dyna y darlun a rydd ein Ffydd i ni o Dadoldeb Duw. Felly gall y sawl ag sydd wedi cael gafael ar wir ystyr y Ffydd Undodaidd fod yn llawen mewn unrhyw le. Cara edrych ar amgylchiadau a phrofiadau bywyd oddiar safle obeithiol. Fel y wenynen yr hon a gasgla fêl o bob llysieuyn, melus neu chwerw, mae yr ymddiriedgar yn gallu sugno dedwyddwch o holl brofiadau cyfreithlawn bywyd. Fel y myfyria ar natur a ffyrdd Rhagluniaeth gall ddyweyd gyda'r emynydd Faber :

"Yn nhrugaredd Duw a'i gariad
Mae eangder fel y môr ;
A rhyw fwynder yn ei iawnder
Sy'n ddiderfyn byth ei 'stor.

"Y mae cariad Duw'n eangach
Nag yw mesur meddwl dyn ;
Y mae calon y Trag'wyddol
Yn rhyfeddol fwyn a chun."

Felly, unwaith y teimlwn fod "y breichiau tragwyddol oddi tanom" ac o'n cylch, yn ein cynal a'n tywys, gallwn "ddioddef pob dim"—gallwn ddwyn pob croes. Dyma yw dirgelwch gwroniaeth uchelaf y byd. Ni chlywsoch son erioed am wir arwr di-ffydd. Mae y gwir arwr yn teimlo ac yn gallu dweyd gyda'r Iesu : "Nid wyf fi yn unig oblegid y mae y Tad gyda myfi." Teimla fod un yn wastad yn agos ato i'w gynorthwyo a'i gysuro. Pan y mae yn llafurio dros Gyfiawnder a Gwirionedd, yn mewnol ddyn y galon, fel y Prophwyd Esaiah, clyw lais yn sibrwd wrtho : "Pan elych trwy y dyfroedd, myfi a fyddaf gyda thi ; a thrwy yr afonydd fel na lifont drosot : pan rodiech trwy y tân, ni'th losgir ; ac ni enyn y fflam arnat : Canys myfi yw yr Arglwydd dy Dduw." Ystyr hyn yn iaith eglur ein bywyd beunyddiol yw, fod dynion ag sydd ganddynt ffydd gref yn gallu gwneud pethau mawrion, ac y gallant ddwyn beichiau trymaf bywyd heb ddigaloni. Un tro, fel yr oedd llysieuydd enwog yn casglu blodau yn Ucheldiroedd yr Yscotland, darganfyddodd lysiau nad oedd wedi eu gweled o'r blaen, yn tyfu ar graig serth, a'r unig fodd i'w casglu oedd cael gan rywun i fyned i lawr atynt o ben y clogwyn wrth râff. Gofynodd i lencyn bychan o fugail a wnai hyny am dâl. "Gwnaf yn union," atebai, "os cewch gan fy nhad i ddal pen y rhaff yn sicr ar lan." Felly casglodd y blodau yn ddiofn a dychwelodd a hwynt yn ddiogel. Yr un modd, pan fyddwn ninau yn credu yn ddiysgog yn ein Tad Nefol, gallwn wneud ein dyledswyddau yn siriol gan wybod fod pob peth yn dda. Os ydym yn gorfod myned i lawr ambell waith i ddyfnderoedd trallod, yr ydym yn teimlo fod awenau Rhagluniaeth yn llaw ein Tad, ac na raid i ni ofni un niwed. Oddiar y ffydd ddiysgog hon yn Nghyfiawnder, Daioni a Chariad Duw tardd sirioldeb diball, yr hyn a'n gwna yn wir ddedwydd. Yn y wedd hon gellid dyweyd fod ein Efengyl yn gwneud lles corphorol ac ysprydol i ni. "Calon lawen a wna les fel meddyginiaeth."

Yn yr un modd ymddibyna ein "Sirioldeb" i raddau helaeth ar yr olwg a gymerwn ar ein natur ein hunain—y natur y mae Duw wedi ein cynysgaeddu â hi. Hawdd yw dychmygu mai pruddaidd yw bywydau y rhai ydynt wedi cael eu haddysgu o'u mebyd mai aelodau ydynt o hil syrthiedig a'u bod yn analluog hyd yn nod i *feddwl* a llai fyth i *wneud* unrhyw weithred dda. Ond mae ein Fydd Undodaidd yn arddangos bywyd i ni mewn goleu hollol wahanol. Ystyriwn ef fel

rhodd ddwyfol—fel rhodd Tad cariadlawn i'w blant a ofala am danynt bob amser. Mae ein bywyd corphorol yn gystal a'r ysprydol yn rhodd Duw. Mae hyn yn fy adgofio o hanesyn a adroddir am Ralph Waldo Emerson, yr athronydd enwog. Un hwyrnos tra yn dadleu â chyfaill mewn perthynas i fodolaeth angelion, ac yn methu a'i argyhoeddi aeth ag ef i ystafell gerllaw, lle yr oedd ei blant bychain yn nghwsg, a'r lili wen a'r rhosyn yn argraphedig ar eu gruddiau. Yn mhresenoldeb yr angelion a wyddom fwyaf am danynt aeth ei gyfaill yn fud, ac felly rhoddwyd terfyn ar y ddadl. Felly hefyd sicrha ein Ffydd ni fod angeliaeth—fod cyneddf ddwyfol yn mhob dyn, ac fod dyledswydd uchaf bywyd yn gynwysedig mewn gwrteithio yr elfen hon o'n natur. Dywed wrthym: Gofalwch eich bod yn dechreu taith bywyd gyda nod uchel o'ch blaen. Credwch eich bod yn blentyn Duw, ac y gallwch sicrhau nefoedd yma ar y ddaear hon, drwy wneud defnydd doeth o'r talentau a ymddiriedwyd i chwi. Gwelwn oddiwrth hyn fod ein Ffydd yn rhoddi anogaeth i bawb i fyned yn mlaen at berffeithrwydd, a sicrha iddynt ei bod yn eu gallu i gyrhaedd uchelderau godidocaf rhinwedd tra maent eto yn y byd hwn. Yn ol y drychfeddwl Groegaidd "Hunan-adnabyddiaeth" oedd y cam mwyaf pwysig yn mywyd dyn. Dyna hefyd ddywed ein Ffydd Undodaidd. Pan sylweddolwn fod genym y gallu i fyw y bywyd goreu, yr ydym yn barod i gyflwyno ein hunain i'n dyledswyddau beunyddiol gyda "Sirioldeb."

Gellir dweyd yn mhellach fod gwir "Sirioldeb" yn deilliaw oddiwrth ufudd-dod cydwybodol i ddeddfau ein bywyd uwch. Ble bynag y cyfeiriwch eich golygon canfyddwch fod achosion neillduol bob amser yn cynyrchu effeithiau neillduol. Yr hyn a hauwn yn awr a fedwn ryw amser neu gilydd. O fewn cylch gweithredol y ddeddf ddwyfol hon cynhwysir y gwirionedd pwysig—na all gwir lawenydd calon—gwir "Sirioldeb" dd'od i neb ond i'r rhai ydynt ffyddlon i'w drychfeddyliau goreu—i'r rhai a ymdrechant gyda bwriad didwyll, i wneuthur yr hyn mae cydwybod yn ddweyd wrthynt y *dylent* wneuthur. Os oes rhai o honoch wedi darllen llyfr a elwir *John Inglesant*, cofus genych fod yr awdwr yn pwysleisio y ffaith hon, ac yn nodi na allwn deimlo nerth dwyfol ein heneidiau, na sylweddoli ein dedwyddwch penaf, ond yn unig pan y gallwn edrych yn ol oddiar glogwyn amser, a bod ein taith ddaearol hyd yn hyn wedi bod yn llawn o fuddugoliaethau ar bob dylanwad a wna ein harwain ar gyfrgoll. "Uwchlaw pobpeth," dywed, "gadewch i ni ddal yn dda at ddeddf bywyd a deimlwn o'n mewn." Dyna yw dirgelwch bywyd dedwydd. Fel y dywedodd Alffred Fawr brenin Lloegr, oddeutu mil o flynyddau yn ol: "Mae'r hwn sydd rinweddol yn ddoeth; mae'r hwn sydd ddoeth yn dda; ac mae'r hwn sydd dda yn ddedwydd." Felly deuwn i'r casgliad pwysig yr hwn a allwn gyfleu mewn un frawddeg: "Canlynwch eich meddylddrych uchaf; ufuddhewch lais eich cydwybod yn eich holl ymdrafodaeth â'r byd; ac yna ni ellwch lai na bod yn "siriol." A pha mor wir lawen rhaid fod yr hwn sydd yn myned drwy y byd a chalon ddiofn a chanddo dystiolaeth ei gydwybod ei fod wedi cysegru ei alluoedd i ogoniant Duw ac i welliant moesol ac ysprydol ei gyd-ddynion!

Felly gellid dweyd nad yw "Sirioldeb" yn dibynu cymaint ar gyflwr allanol ag ar heddwch a mwynhad mewnol. Arferai Martin Luther ddweyd: "Mae y meddwl dynol fel maen melin; pan roddwch wenith dano, troa a mala'r ŷd yn flawd; os na roddwch ŷd o dano, eto a'n mlaen i falu nes malo'i hun ymaith." Ar yr un egwyddor rhaid i'r galon ddynol gael rhywbeth i'w *wneud* neu treulia ei hun ymaith gan lesgedd. Y "galon lawen a wna les fel meddyginiaeth" yw yr hon sydd yn llawn o

serchiadau pur a chynhes, a'r hon sydd bob amser a'i thuedd at ychwanegu dedwyddwch y byd.

Dug y syniad hwn ni at agwedd arall o'n testyn—cyflawniad siriol o'n Dyledswydd. Mae cariad aiddgar at Ddyledswydd yn ein galluogi i'w gyflawnu yn siriol. Mae yn egwyddor safadwy na allwn ragori mewn dim os na chymerwn bleser ynddo. Rhaid iddo feddianu ein meddyliau difrifolaf a'n galluoedd goreu. Er engraifft ni all y myfyriwr gyrhaedd enwogrwydd ond drwy gyflwyno ei hun i'r gwaith o gasglu gwybodaeth, a thrwy wneuthur hyn yn siriol fel ei brif amcan. Nid oes neb erioed wedi cyrhaedd safle uchel mewn gwybodaethau y rhai a gashëai neu a ddiystyrai. Yr efrydydd brwdfrydig yn unig a all edrych yn mlaen am lawryf-goronau enwogrwydd. Yr un modd, ystyriai y rhai ydynt wedi gadael eu nod ar hanes y byd, ac wedi rhoddi help llaw i gynydd ysprydol dynolryw—ystyriai y rhai hyn eu Dyledswydd fel eu gorchwyl mwyaf hoff. Galluogai y rinwedd hon—Sirioldeb—ni i ymoddef a phob peth gyda thawelwch a dewrder, a sicrhäi i ni ar bob cam, y gwna cyflawniad ffyddlon pob gorchwyl a roddir i ni i'w wneuthur, ychwanegu rhywbeth at berffeithrwydd ein cymeriad, fel y mae pob ergyd a rydd y cerfiwr a'i aing yn cyfranu rhywfaint tuag at harddwch y ddelw y mae yn wneuthur o ddarn o farmor. Yn wir, "calon lawen a wna les fel meddyginiaeth." Ac mai "Sirioldeb" neu Ddedwyddwch o'r natur yma yn hollol gydweddol a'r Difrifoldeb dyfnaf a'r Duwioldeb mwyaf didwyll.

Rhy fynych o lawer ffyna y syniad fod tristwch yn fwy derbyniol gan Dduw na llawenydd. Mae yn wir y darllenwn: "Aberthau Duw ydynt yspryd drylliedig; calon ddrylliog gystuddiedig, O Dduw, ni ddirmygi." Daeth y geiriau yna allan o enau y Salmydd pan oedd ar suddo dan ei bechod, ac yn edifarhau. Darllenwn hefyd: "Y rhai cyfiawn, byddwch lawen a hyfryd yn yr Arglwydd. Y cyfiawn a lawenycha yn yr Arglwydd, ac a obeithia ynddo; a'r rhai uniawn o galon oll a orfoleddant." Dylem oll geisio cymhwyso ein hunain er gwneud hyn. Duw yw ein Tad cariadlawn, ac mae yn amlwg yn ol hanfod pethau nad yw yn beth dymunol ganddo ef ein gweled bob amser mewn dagrau. Beth ddywedai tad daearol am ei blentyn pe deuai ger ei fron bob dydd gan wylo, a dweyd ei fod yn ddrwg wrth natur! A fyddai hyny yn foddus i'r tad hwnw? Na! i'r gwrthwyneb, tybiaf y byddai hyn yn flinder mawr iddo. Yr hyn a'i boddiai fwyaf fyddai gweled ei blentyn yn "llawen" a siriol ger ei fron, a phob argraph ar ei wynebpryd ei fod yn arfer ei bwerau naturiol heb eu camarfer. Felly hefyd, meddyliaf, y ffordd oreu i wasanaethu Duw, yw ei wasanaethu ef yn siriol—"mewn llawenydd." Am y fath addoliad gallwn ddweyd: "Calon lawen a wna les fel meddyginiaeth." Dywedir am yr Iesu ei fod yn drist ei yspryd, a chymhwysir ato eiriau y Prophwyd Esaiah, y rhai a lefarodd am un oedd yn byw yn ei amser: "Dirmygedig yw, a diystyraf o'r gwŷr; gwr gofidus a chynefin a dolur." Nid yw y desgrifiad hwn o'r Athraw Mawr ond un rhanol. Yr oedd ochr arall i'w gymeriad. Yr ydych yn cofio sut yr oedd plant bychain yn hoffi dyfod ato, ac fel yr ymhyfrydai ef gyffwrdd a hwynt a'u dwyn yn ei fynwes. Darlun o wr siriol a llawen a gawn yma; oblegid yr ydym yn gwybod na wna plant lawer o siarad a neb pruddaidd ac athrist. Yr oedd ganddo rwystrau fil; ond cysurai ei ddysgyblion ar ddechreu ei weinidogaeth: "Byddwch lawen a hyfryd: canys mawr fydd eich gwobr yn y nefoedd." Yn yr Efengylau y darlun a gawn o'r Iesu sydd un llawn o "Sirioldeb." Darlun cyfaill cywir ydyw, a chariad yn argraphedig ar ei wedd. O'r holl ddarluniau a welais o hono erioed yr harddaf, ac yn ol fy meddwl i, y mwyaf cywir oedd un gan arlunydd o Hungary. Yr oedd ei wedd yn

llawn o Sirioldeb, a gellid meddwl ei fod yn llefaru wrthym y geiriau : "Cymerwch gysur, myfi a orchfygais y byd."

Yr un modd pan olrheiniwn hanes goreugwyr pob oes, cawn eu bod yn llawn o galon. Er engraifft dywedir am yr Esgob Latimer, yr hwn a ferthyrwyd yn nheyrnasiad Mari waedlyd am ei Brotestaniaeth, ei fod yn siriol hyd y diwedd. Yn y mynudau olaf o'i fywyd, tra yr oedd y ffagodau yn goelcerth oddi amgylch iddo, cododd ei law yr hon oedd yn fflam o dân, a dywedodd wrth ei gyd-ferthyr : Meistr Ridley, ymddygwch fel dyn ; yr ydym wedi cyneu canwyll yn Lloegr heddyw na ddiffoddir byth." Felly yn awr gyfyng marwolaeth, "Calon lawen a wna les fel meddyginiaeth." Mae gwir grefydd yn beth *hyfryd* iawn. Meddyginiaeth yr enaid yw a cheidw yr yspryd yn llon a bywiog. Am y rheswm hwn gallwch deimlo yn sicr os gwelwch grefydd rhywun yn ei wneud yn gul, sur ac aflawen, nad yw hono yn grefydd bur a dihalogedig. Mae gan wir grefydd genad o obaith i holl ddynolryw. Mae yn ysprydoliaeth i'r ieuenctyd, yn nerth ac arweinydd mewn teuluoedd ac yn gysur i'r rhai ydynt wedi cyrhaedd hwyrnos eu dyddiau. Fel mae codiad haul y tymhor hapus hwn yn gwneud i'r greadigaeth lawenychu, felly mae ein Ffydd syml yn Nuw ac mewn dyledswydd yn sirioli calonau y rhai sydd yn ei phroffesu a'i gwneud yn rheol bywyd. Mae yr hwn sydd yn gwybod fod llawenydd yn anwahanadwy gysylltiedig â ffyddlondeb yn ddigon dewr i wrthsefyll ffasiwn neu unrhyw brofedigaeth arall. Crea yr ymsyniad hwn ynom wroldeb moesol o'r radd uchaf. Mewn eglurhad o hyn gallaf adrodd hanesyn am fachgenyn ag oedd wedi ei fagu mewn cartref Undodaidd diwylliedig. Anfonwyd ef pan yn dair ar ddeg oed i un o'r ysgolion mawrion cyhoeddus yn Lloegr, lle nid oedd ond ychydig os neb o'r un farn grefyddol ag ef. Un diwrnod galwodd y Prifathraw ef o'r neilldu, a gofynodd iddo paham y glynai mor dyn wrth ei Undodiaeth tra y daliai y mwyafrif o'i gydysgolheigion syniadau gwahanol. Safai y bachgenyn ar flaen ei draed er mwyn edrych mor dal ag y medrai, gan deimlo fod cynyg wedi ei wneud i lygru ei gydwybod, a dywedodd : "Yr wyf yn parhau i fod yn Undodwr am yr ystyriaf fod fy nghrefydd yn wir, a chyhyd ag y meddyliaf hyny glynaf wrthi." Llefarodd y bachgenyn fel gwir arwr. Gallwn ninau oll deimlo yn sicr y bydd i'r llawenydd puraf lanw ein mynwes pan fyddom yn ffyddlon i'r goleuni sydd genym gan nad beth a fyddo.

Mae "Sirioldeb" yn rinwedd gymdeithasol, a phan y rhoddwn hi mewn ymarferiad, gwna ein hymddygiad tuag at eraill yn llawer mwy cynorthwyol. Mae gwyneb, llais, a chyfarchiad siriol yn ysprydoliaeth ac ychwanega yn anfesurol at ein dedwyddwch. Ac ar yr egwyddor hon dywedaf nad oes un bod rhagorach dan y nef na'r hwn sydd yn gwerthfawrogi yr hyn sydd oreu yn y bywyd presenol, yr hwn a all lawenychu gyda'r rhai sydd yn llawenychu, ac a deimla wir foddhad a hyfrydwch pan mae yn alluog i yru ymaith brudd-der ereill â'i gydymdeimlad tyner. A'r hyn sydd fwy pwysig fyth, mae enaid hawddgar, siriol yn ganolbwynt o'r hwn yr ymwasgara pelydrau dedwyddwch dros y byd oddiamgylch. Mae ganddo y gallu i wneud ereill yn siriol a llawen ; a gwna y rhai hyn hefyd yn eu tro, ddylanwadu yr un modd ar eu cymdeithion a'u cymydogion ; ac yn y wedd hon ymdaena "Sirioldeb" fwyfwy yn barhaus dros wyneb y ddaear.

Fel rhai rhinweddau cymdeithasol ereill, mae Sirioldeb yn rhad iawn ac o fewn cyrhaedd pawb. Beth all roddi i ni fwy o wir fwynhad na gwên ddidwyll, serchog cyfaill mynwesol? Dywed y Prophwyd : "Yr Arglwydd a roddes i mi dafod y dysgedig, i fedru mewn pryd lefaru gair wrth y diffygiol." Dyna mae yr enaid siriol yn geisio

wneud bob dydd. Nid yw dweyd gair siriol wrth rywun sydd mewn angen am ychydig gefnogaeth i wynebu brwydrau bywyd, yn rhyw drafferth fawr ; ac eto y fath gynorthwy ydyw i'r enaid blinedig ! Nid yw llaw-ysgwydiad calonog ond aberth fechan, ond mor fynych yr adnewydda ein nerth. Ambell waith dichon eich bod wedi teimlo ar eich meddwl ryw faich trwm o ofid, a'ch nerth yn cyflym ddiflanu. Yna aethoch at ryw gyfaill siriol i ddweyd eich cwyn wrtho, a throdd hwn eich galar yn llawenydd. Felly "calon lawen a wna les fel meddyginiaeth."

Dichon y dywed rhywun : Beth sydd a wnelo hyn a chrefydd ? Ai nid wrth grefydd y meddylir rhyw gredo neu ddefodaeth neillduol ? Nage, meddaf fi wrthych chwi fy mrodyr a'm chwiorydd Undodaidd. "Nid felly y dysgasoch Grist." Crefydd gweithredoedd da oedd ei grefydd ef. Nid y rhai wisgant yn llydan eu phylacterau gan osod eu credo ar ymyl eu gwisg yn ngwydd pawb a'i boddiai ef, ond y rhai addfwyn, y rhai oedd arnynt newyn a syched am gyfiawnder, y trugarogion, y rhai pur o galon, a'r tangneddwyr. Gwell oedd ganddo y Samariad trugarog, er yn ngolwg rhai nid oedd iach yn y Ffydd, na'r offeiriad a'r Lefiad a aethant o'r tu arall heibio, heb wneud dim i gynorthwyo brawd mewn caledi. Ni ddibrisiai yr Iesu y gymwynas leiaf. Fel y dywed : "Pwy bynag a roddo i'w yfed i un o'r rhai bychain hyn phiolaid o ddwfr oer yn unig, yn enw dysgybl, yn wir, meddaf i chwi, ni chyll ei wobr."

Yr wyf yn cofio yn eithaf da fel yr oedd hen bobl Galfinaidd Sir Aberteifi—hen bobl ag ydynt yn ddios yn y nefoedd er ys llawer dydd, er gwaethaf eu Calfiniaeth, yr wyf yn cofio sut yr oeddynt yn ceisio fy argyhoeddi mai bratiau budron oedd y rhinweddau hyn a gymeradwyai yr Iesu. Yr amser hwnw daliwn yn dyn at ddyfyniad yr Apostol Iago o ger bron Duw a'r Tad yw hyn : ymgrefydd : "Crefydd bur a dihalogedig weled a'r amddifaid a'r gwragedd gweddwon yn eu hadfyd a'i gadw ei hun yn ddifrycheulyd oddi wrth y byd." Dyna ystyriaf yw crefydd, hyd y dydd hwn, ac yr wyf yn foddlon i anturio fy enaid anfarwol arni. Ar y llaw arall, nid wyf yn meddwl fawr am grefydd y bobl hyny ag sydd a chymaint o frys arnynt i fyned i'r nefoedd, fel nad oes ganddynt amser i feddwl am eu dyledswyddau i'w cyd-ddynion ar y ddaear hon. Rhydd Charles Dickens engraifft darawiadol iawn yn un o'i weithiau o'r hyn a feddyliaf, yn nghymeriad Mrs. Jellaby. Cymer y wraig hon ddyddordeb neillduol yn negröaid rhyw ran o Ddeheubarth Affrica, a cheisia gan bawb i'w chynorthwyo i bwrcasu dillad cynes i blant bychain y wlad boethlyd hono, tra y llwyr esgeulusa ei phlant ei hun. Yn lle gwneud cartref siriol er dedwyddwch y rhai sydd ganddynt hawl i'w gofal a'i charedigrwydd, gwastraffa ei hamser ar rywbeth draw yn mhell. Y gofal cyntaf ddylai fod genym yw gwneud nefoedd o'r ddaear hon drwy daenu gwir "Sirioldeb" o amgylch ein trigfa. Tŷ ein Tad yw y nefoedd fry a gallwn hyderu os gwnawn Ei ewyllys, y cawn roesaw yno. Yr wyf yn cofio unwaith groesi o Loegr i'r cyfandir mewn tywydd tra garw. Ar fwrdd y llong gofynwyd i fachgenyn yn fy nghlyw a oedd yn barod i fyned i'r nefoedd. "Nac wyf eto," atebai, "mae genyf lawer o waith i'w wneud cyn myned yno." Dyna, feddyliaf, yw ein profiad braidd i gyd heddyw. Oes, mae genym oll lawer o waith i'w wneud. Gwnawn ef yn siriol a chydwybodol ac yna cawn nefoedd yr ochr hyn i'r Iorddonen ddu yn gystal a'r ochr draw.

Gellir dyweyd fod gwir Sirioldeb yn deilliaw oddiwrth hunan-barch yn yr ystyr oreu o'r gair. Mae hon yn ystyriaeth bwysig iawn i chwi fy mrodyr a'm chwiorydd ieuainc. Dywed yr Apostol : "Oni wyddoch chwi mai teml Duw ydych, a bod Yspryd Duw yn trigo ynoch." Dy-

munwn arnoch i geisio sylweddoli yr ymsyniad hwn y fynud hon. Mae yr hwn sydd wedi cael gafael ar wir yspryd ein Ffydd Undodaidd yn barod i ddweyd wrtho'i hun : "Plentyn Duw ydwyf, ac mae yn weddus i mi gysegru fy nghorph i wasanaeth fy Nhad Nefol. Ni adawaf i'r dwylaw hyn fod yn segur neu wneud yr hyn sydd ddrwg, ond defnyddiaf hwynt mewn llafur anhydeddus, ac mewn gweithredoedd da. Gofalaf ar i'm traed gerdded yn ffordd Dyledswydd, ac ni adawaf iddynt lithro oddiar lwybrau rhinwedd. Gwnaf fy nghalon yn gartrefle teimladau tyner a serchiadau sanctaidd. Defnyddiaf fy nhafod i ddweyd y gwir, i gysuro y rhai ydynt mewn dygn anobaith, i gefnogi pob achos cyfiawn, ac i foli fy Nghreawdwr. Rhoddaf fy nghorph "yn aberth byw, sanctaidd, cymeradwy i Dduw ; yr hyn yw fy rhesymol wasanaeth."

Dysg ein Ffydd ni hefyd i osod pwys dyladwy ar ein natur ysprydol. Pa fodd y gallwn wneud hyn fel y byddo i ni deimlo llawenydd calon ? Drwy sychedu am wybodaeth uwch, drwy ymdrech barhaus i wybod mwy am y byd hardd hwn, lle'n gosodwyd i'n haddysgu ar gyfer Paradwys sydd decach fyth. Mae ein crefydd yn hawlio oddi wrthym na wnawn esgeuluso un cyfleusdra i wrteithio ein cyneddfau ysprydol. Dywed yr hwn sydd a'i galon yn iawn tuag at Dduw : Ni chuddiaf yn y ddaear un dalent ag y mae fy Nhad Nefol wedi ymddiried i mi. Ni cheisiaf drysor yn fy nghof ond y cyfryw feddyliau ag ydynt deilwng o fôd anfarwol. Os oes genyf lais i ganu, canaf yn unig yr hyn sydd bur, a'r hyn sydd er gogoniant Ysprydolydd Dwyfol Cerddoriaeth. Felly mae rhai sydd, yn y wedd hon, yn cyflwyno eu corph a'u meddwl i'r hyn sydd oreu, yn "llawen" eu calon, gan eu bod yn gwybod fod Duw yn gwenu arnynt. "Calon lawen" o'r natur yma "a wna les fel meddyginiaeth."

Oddi wrth yr hyn a ddywedais yr ydych wedi canfod fod crefydd i'w hadnabod wrth ei ffrwyth—wrth yr hyfrydwch a'r cysur mae y rhai a'i proffesant yn deimlo ac yn barod i roddi i'w cyd-ddynion. Ychydig o honom, yn gymhariaethol, sydd yn alluog i achosi llawenydd a dedwyddwch i ereill drwy roddi iddynt, ryw fudd tymhorol a ellid ei brisio mewn aur ac arian ; ac, feallai, llai fyth gyda'u hathrylith a'u dysgeidiaeth. Ond os ydym wedi gwrteithio serchiadau ein calonau yn briodol, gallwn oll gynorthwyo ereill gyda'n "Sirioldeb."

Bydded i ni ynte fyned yn mlaen yn siriol ar daith bywyd mewn llawn sicrwydd fod pur lawenydd mor gysegredig a galar, fod gwenau diniwed a charuaidd yn gystal offrwm a'n gweddiau, ac fod pob peth sydd yn ychwanegu at ddedwyddwch y byd yn dderbyniol i'n Tad Nefol.

O FOR I DEIFI.

Fry o dan gesail Shôn Cwilt tardd afon Clettwr, yn y brwyn, a'r mwswgl a'r mawn. Erbyn cyrhaedd Pont Talgarreg y mae wedi casglu cryn nerth ; try Felin a Gweithfa Wlân, a llochesa aml i frithyll braf yn ei dyfroedd mawnog. Pont Talgarreg ! Pa fil o adgofion gylymant, fel yr

iorwg, am ei meini llwydion anwyl! Oes yna rywun yn cofio englyn yr hen gymeriad gonest, Herbert y Siop, i Bont Talgarreg? Os nad oes, dyma fe :—

Hen bont, pont ddifri—grwca
Mae'n grace drwyddi;
Aed y dwr, a'r gwr du
A'i fwdwl i'w difodi.

Nid yw'n hollol gynghaneddol, a gwaeth fyth, nid yw'n hollol wir, ond mae arabedd yr hen Herbert yn fyw ynddo. Neu os nad ef oedd ei wir awdwr, eto mae natur ddigri'r ardalwr o Dalgarreg yn fyw yn y llinellau. Y mae pawb wedi darllen y *Deserted Village* gan Goldsmith; a phryd bynag y darllenaf y gân ragorol hon, cofiaf mewn dagrau am hen bentref bach Talgarreg, a'r hen gyfeillion anwyl, anwyl, breswylient ynddo gynt. 'Does ond prin ugain mlynedd wedi myned heibio er y pryd y bum yn yr ysgol yno gynt; ond rhyfedd fel y mae'r cyfan oll wedi cymeryd ei le yn nghysegr sancteiddiolaf fy mywyd. Diflanodd yr oll fel boreu gwyn o wanwyn, ac nid oes yn aros ond y darlun prydferth o hono a gerfiwyd ar lechau'm calon, ac hiraeth, fel helygen wylofus yn hongian uwch ei ben.

Mor llawen, mor fyw, mor rymus oedd dyddiau maboed o fewn yr hen bentref gynt! Mor fawreddog oedd y bont, mor gref oedd yr afon, i'w cymharu a phontpren ac afon Rhyd Capel Cynon! * Yr oedd yr ysgol yn un fawr, yr oedd nifer y plant yn fawr, ac yr oedd pob peth yn y lle o'r Tafarn i'r Plas yn arddunol i'm golwg blentynaidd; ac yn enwedig i'w cymharu a'r hyn a welsom yn ardal Capel Cynon; canys yr oedd myn'd o Gapel Cynon i Dalgarreg yn golygu yr un cyfnewidiad a myned o Gaerfyrddin i Lunden. Ac y mae'r argraff aruchel foreuol hon yn para hyd heddyw, ac yn ychwanegu at y siomiant a gaf bob tro yr af yn ol i'r Pentref wrth ei weled mor wag, mor oer, mor fychan, ac mor farw. Ie, mor oer a marw yw Pentref Bach Talgarreg erbyn heddyw. Ei dai, ei erddi, ei Blas, ei Eglwys, ei gonglau difyr gynt i gyd; mor oer a marw. Yr afon loew, wisgi, redai gynt o dan ei Bont, erbyn heddyw sydd yn llawn llaid, ac wedi pylu; mor oer a marw. Yr hen gyrddau cystadleuol difyrus, llawn canu a chwerthin iach, hwythau hefyd ydynt mor oer a marw. Tithau, gyfaill hawddgar boreu oes, yr hwn

"Dramwyaist gyda mi
Rodfeydd y dyddiau gynt."

Ti yr hwn eisteddet gyda mi, ar feusydd gwyrddion, heuliog gwanwyn, i son am ein dyfodol rhosynaidd gobeithiol; yr hwn y cydchwareuais a thi, y cyd-gysgais a thi, y cyd-rodiais a thi hafau a gauafau hirion maboed; erbyn heddyw pa le mae dy wyneb ffres, bywiog, bachgenaidd? Hed fy meddwl ar ei union at larwydd sythion Pen Pisgah, a "byddin o gerig beddau" mor sythion a hwythau gerllaw; yno mae'r gwyneb anwyl hwnw wenai arnaf yn y dyddiau gynt, ie, yno, ac—mor oer a marw. Os oes bywyd yn bod ar ol marw, hyfrydwch penaf y dedwyddwyd fydd ymgomio a hen gyfeillion am eu gwahanol brofiadau wedi ymadael a'u gilydd ar y llawr. Byddai marw yn colli ei holl ddychryn i mi pe y cawn wybodaeth sicr y byddai fy hen gâr T.T. a'm hen gyfaill E.E. yn estyn dwylaw i'm croesawi yr ochr draw! Ond dyna ddigon, clywaf rywun yn fy nghyhuddo o fod yn *morbid*, o ysgrifenu mewn modd gwan, afiach. Felly, ymataliaf hyd nes i mi dori allan eto, a hyny nis gwn pa mor fuan. Mor fychan yw'r

* Erbyn heddyw mae "Pont Fawreddog" wedi cymeryd lle Pontbren Capel Cynon.

Pentref—neu yn hytrach mor fychan yr ymddengys y Pentref i mi yn awr, ac fel goleuni ar hyn dyfynaf yr hen, hen ddywediad "Pob peth sydd berthynasol"—(*All things are relative*). Y mae fy safon o fawrdd wedi cyfnewid yn ystod yr ugain mlynedd diweddaf, ond braidd y daw dim i fyny a mawredd yr hyn wel crebwyll y plentyn. Gwelais y Niagara lawer gwaith yn llifogydd gauafol Clettwr; anmhosibl fyddai i mi ei gweled yn awr, ac nis gwelais erioed wedi'n yr un rhaiadr a gynyrchai'r un effaith ar fy nghrebwyll a rhaiadrau Clettwr neu Gerdin yn ystod dyddiau fy mebyd. 'Does dim wedi taro ar fy nghrebwyll erioed fel y gwnaeth yr olwg gyntaf ar Bont Talgarreg a'i adeiladau; er fy mod wedi gosod traed wedi hyn ar drothwy St. Paul's, ac ar balmant Pont Llundain; ac hyd yn nod wedi cael cipdrem ar ogoniant y Madeleine a Notre Dame yn Paris, ac ar bontydd ardderchog y Seine; ond nid yw'r argraff ar fy nghrebwyll yn agos cymaint a'r argraff gefais yn fy ymweliad boreuol a Phentref Talgarreg. Pan af yn ol i'r pentref heddyw, yn anymwybodol disgwyliaf dderbyn yr un argraff, o ryfeddod a gawsom gynt, ond O! 'r siomiant, ofnadwy siomiant. Mwyaf y disgwyliad, mwyaf y siom; mor wir; Yr oeddwn yn ddiweddar yn trafaelio i'm hardal enedigol yn nghwmni cyfaill o'r Brifddinas. Wedi cyrhaedd gorsaf Llandyssul, cerddem i fyny gyda'n gilydd i'r wlad, ac yn hwyr y gwanwyn, mor brydferth yr edrychai pobpeth o'n hamgylch. Ond fel yr elem yn mlaen teimlwn rhyw brudd-der a thrymder yn dyfod drosom—trymder a phrudd-der na fynem gyfaddef yn aml. A dyna sylw'r cyfaill: "Wrth ddyfod ar fy nhro o Lunden i'r wlad tra'n teithio o Gasnewydd i Gaerdydd y bydd fy nghalon yn llanw o lawenydd, wrth neshau at fy nghartref a'm gwlad. O Gaerdydd i Gaerfyrddin tawela fy mron ychydig, ac oddiyno i'm pentref genedigol ymgripia prudd-der yn llechwraidd i'm bron. Mae fy nisgwyliadau yn gymaint yn fwy na'r sylweddoliad!" A dyma'n gywir fy mhrofiad fy hun wrth ddychwelyd yn ol i'r wlad, am y diwrnod cyntaf, ond yn raddol gostwng fy nisgwyliadau i lefel y sylweddoliad; daw cadwyni hen gysylltiadau yn fwy i'r amlwg; collaf yn fuan arwisg deneu allanol y trefwr, ac unwaith yn rhagor yr wyf yn wladwr syml, ac yn fy elfen gynhenid fy hun!

Mor Gymreig yw pentref Talgarreg hyd y dydd heddyw! Pa beth a olygaf wrth Gymreig? Wel, os hoffwch tynaf wahaniaeth rhwng Cymreig a Chymreigaidd. Term o sarhad efallai yw yr olaf, term o anwyldeb yw'r cyntaf. Mor Gymreig yw'r pentref, a chartrefol yw ei drigolion; gwyr ac arogl hyfryd pridd dihalog y ddaear arnynt; gwragedd a serch agored, digêl; natur yn byrlymu o'u calonau i'w llygaid; plant yn chwareu o gylch y lle; yn siarad iaith agos mor hen ag iaith ŵyn Shôn Cwilt a dedwyddwch anymwybodol yr ŵyn yn eu bronau ieuainc. *Extremes meet*—sydd hen ddywediad Seisnig. Sôn am y "bywyd syml" sydd i'w weled yn newyddiaduron y dydd; a llyfrau ar y "*Simple Life*" sydd i'w gweled ar fwrdd llyfrau ein gorsafau. A dyma hen bobl Talgarreg yn arwain y "bywyd syml" *up-to-date* hwn er's canrifoedd o flynyddoedd. Gwir fod llawer o'r cedyrn, fel Shon yr Hewl a Shams Mynachlog, wedi syrthio fel derw hynafol; ond y mae yma gewri eto ar ol—ac os ceir yr hogiau yn y pentref i gredu'r gwir, fod ugain punt y flwyddyn ar un o feusydd iachus Ceredigion yn well na chanpunt yn mhyllau glo afiach Sir Forganwg—megir cewri yn mro Talgarreg unwaith eto. Gwyn fyd na ddelai pen ar y rhuthro yma i'r trefydd. Y mae Shaci'r Gwas wedi myned yn Shoni Hoi er's talwm byd. Yn lle'r gwyneb coch, iachus, a lliw'r haul a'r cynhauaf arno y mae Shaci wedi enill gruddiau llwydion, a chreithiau glas y glo ar hyd-ddynt, a'i aelodau sythion ac hoew wedi

troi'n gam a chrwca wrth ymgripian fel yspryd yn nghrombil dudew y ddaear. Y mae'r dyhead yn codi'n gryf am y bara ceirch a'r llaeth a'r cig eidion a geid haner can mlynedd yn ol; a'r gwrthwynebiad yn codi'n gyfog yn erbyn goruchwyliaeth y tê, a'r deisien fraith, a'r cwrw—cwrw dibendraw. Pa bryd y dysgwn werth pethau mawrion bywyd? Ofnwyf mae yn rhy ddiweddar y dysgwn werth iechyd—iechyd corff a meddwl ac yspryd, ac ymborth iach—hefyd i'r corff a'r meddwl a'r yspryd. Ofer cloddio am aur, os ei wario a wnawn am yr hyn nad yw fara; ac ofer prynu ystor o fara pan fo'r corph wedi myned yn rhy wan i ofyn am dano. Pan yn methu cael crwstyn o fara ar Fanc Shon Cwilt, pan yn teimlo pangfeydd newyn ar lanau Clettwr—yna, ac nid cyn hyny, dos i Forganwg i edrych am waith yn y pyllau glo. Nis gall aur y cread braidd guddio hagrwch bywyd y dref, a'r llwch a'r glo—a gwaeth fyth hagrwch egr ei hanfoesoldeb a'i meddwdod. Bywyd prydferth, syml, gonest—bywyd Cymreig ar lanau Clettwr—bywyd iach, diofidiau, didwrw, pwy wyr ei werth cyn ei golli am byth?

S.

PENILLION

A gyfansoddwyd ac a ddarllenwyd ar osodiad Maen Coffadwriaethol Capel Newydd Bwlch-y-fadfa yn ei le, Mehefin 21ain, 1905.

Yn ngwenau Duw a nerth ein ffydd,
Ar hwyaf ddydd y flwyddyn,
Cydgwrdd a wnaethom ar y twyn,
Yn nghanol swyn diderfyn.
Ein gwaith yw rhoddi "maen yn mur"
Teml bur ein gwyn Iehofa;
A dyma ef yn ernes llwydd,
Ar ysgwydd *Bwlch-y-fadfa.*

Cyfodi "Ty i Dduw" y saint,
Yw uchaf fraint yr oesoedd,
Ceir yn y gorchwyl ddefnydd cân
Aniflan nef y nefoedd.
Pa waith sy'n well na chodi tŵr
I arwr Pen Calfaria,
Sydd heddyw mewn anrhydedd gwyn
Ar glogwyn *Bwlch-y-fadfa.*

Tra tân Diwygiad yn ein tir
Yn llosgi'r anwir allan,
Mae cadw'r "Achos Da" yn fyw,
Yn lloni Duw ei Hunan,
Wrth weithio dros y Tlws a'r Pur,
Cawn "Fana" cysur Gwynfa,
Y fynud hon, y mae ei fri,
Yn llenwi *Bwlch-y-fadfa.*

Drychfeddwl mwyaf, uchaf, Ner,
Yn nyfnder tragwyddoldeb
Oedd cadw dyn, a throi ein byd
Yn wynfyd a'i anwyldeb,
A thrwy eich ffydd yr ydych chwi
Wrth godi'r Capel yma,
Yn sylweddoli Bwriad Duw,
Ar ben hen *Riw-y-fadfa.*

Os mai *anianol* yw y Maen,
Mewn mur o'n blaen osodir,
Ysprydol yw ei amcan ef,
A'r nef o'i fewn a deimlir;
Ceir ynddo lais Anfeidrol Fryd,
Yn dweyd o hyd "NA PHECHA,"
Gwyn fyd y llaw a'i rhoes dan sêl,
Yn nghapel *Bwlch-y-fadfa*

Maen Coffadwriaeth Iesu Grist,
I'r enaid athrist ydyw,
"Maen bywiol," gloew, fel y Gwir,
Y Cywir, a'r Diledryw,
Yn nghysgod hwn am oesau bydd
Yr "Arch a'r Drugareddfa,"
A'r nef o'i gylch yn llawenhau,
Yn ngenau *Bwlch-y-fadfa.*

Os nad oes ganddo reswm byw,
Mae Duw yn Rheswm ynddo,
A chofied pawb, y call a'r ffol,
Fod ystyr ddwyfol iddo ;
Na ddeued neb i'w ymyl cain,
I filain wrthryfela,
A boed y Gwir am dano'n dyrch
Ar lenyrch *Bwlch-y-fadfa.*

Rydd pawb sydd yma heddyw'n nghyd
Yn myn'd o'r byd yn fuan,
Ond byth ni ro'ir Efengyl Hedd
I orwedd yn y graian ;
Os syrth y capel hwn, bydd co',
Am dano'r "Bore Ola,"
A bendigedig fyddo'i lwch
Ar degwch *Bwlch-y-fadfa.*

Pisgah, Talgarreg. CYNFELYN.

Y GYMDEITHAS UNDODAIDD GYMREIG.

Cynhaliwyd y cwrdd blynyddol eleni yn Llwynrhydowen, Ceredigion, Mercher ac Iau, Mehefin 28 a 29. Daeth lluaws mawr o weinidogion ac aelodau eraill y Gymdeithas yn nghyd. Yr oedd yr holl weinidogion sydd a gofal eglwysi Cymreig ganddynt yn bresenol mewn rhywrai o'r cyfarfodydd ; ac mewn ychwanegiad y Parch. T. Thomas, Y.H., Green Park, W. James, B.A., Y.H., yr Ysgrifenydd ; Mr. J. Evans, y Trysorydd ; y Parchn. S. Jones, B.A., Pontypridd ; D. Rees, Penybont ; Mr. L. N. Williams, Aberdar ; Meistriaid Jones a Morgan, Tonypandy ; Cadben Davies, C.C., &c., yn gystal a chynrychiolaeth luosog o'n holl eglwysi yn Sir Aberteifi ; y Parch. J. P. Kane, Dowlais oedd pregethwr apwyntiedig y Gymdeithas. Cafwyd tywydd hynod ffafriol ; cytunai pob peth i wneud cyfarfodydd tra llwyddianus.

Cyfarfyddodd Pwyllgor yr Ysgol Sul am 5 o'r gloch dydd Mercher—y Parch. J. Davies, Alltyplacca yn llywyddu yn absenoldeb y cadeirydd ac is-gadeirydd yr adran. Darllenwyd y Fantolen am y flwyddyn 1904 a 1905, yr hon a ddangosai fod y gweddill mewn llaw yn £3 3s. 11c. Etholwyd Mr. J. R. Thomas, Pontshan yn Is-gadeirydd, y Parch. Lewis Williams, Rhydygwin yn Ysgrifenydd, y Trysorydd, Mr. W. H. Thomas, Pontardawe i aros yn ei le. Pasiwyd fod y chwech penod gyntaf o "Banau Ffydd" i fod yn faes llafur Safon 4 am y flwyddyn 1905—1906 ; y pedair penod gyntaf yn faes llafur Safon 3 ; penod y drydedd yn yr Holwyddoreg ar gyfer Safon 2 ; a'r gofyniadau i Safon 1 i gael eu parotoi gan y Parch. E. O. Jenkins, Llwynrhydowen. Cytunwyd fod y swm o £2 10s. i gael ei dalu i'r diweddar Ysgrifenydd, Mr. Jenkins am ei waith yn golygu y Gwersi am y flwyddyn ddiweddaf. Ar ol diweddu y trefniadau, &c. trowyd y Pwyllgor i fod yn Gynadledd a darllenwyd papyr tra dyddorol gan y Parch. S. Jones, Pontypridd ar "Lenyddiaeth ddelfrydol yr Ysgol Sul." Yr ydym yn gobeithio y galluogir ni i ddarllen y papyr yn YR YMOFYNYDD heb fod yn hir. Siaradwyd ar y gwahanol faterion awgrymwyd gan y Cadeirydd, Parchn. Ceredig Jones, W. James, D. Rees, R. J. Jones a Hathren Davies. Pasiwyd pleidlais galonog o ddiolchgarwch i Mr. Jones.

Yn nghwrs y dydd cynhaliwyd tri gwasanaeth pregethu, y cyntaf nos Fercher am 7, a'r ddau arall dydd Iau am 3 a 6.30, a phregethwyd i gynulleidfaoedd mawrion, yn neilldnol prydnawn Iau, adeg y bregeth apwyntiedig, gan y Parchn. D. R. Davies, Pentre ; D. J. Evans, Cwmbach ; J. P. Kane, Dowlais ; D. Rees, Penybont ; J. Hathren Davies, Cefncoed ; ac R. J. Jones, M.A., Aberdar. Pregethwr apwyntiedig y Gymdeithas oedd Mr. Kane, a'i destyn oedd "Y Rheol Euraidd." Yr oedd ganddo destyn *noble*, cafodd wrandawiad ardderchog, a chredwn y bydd darllenwyr YR YMOFYNYDD un o'r misoedd nesaf yma yn cytuno a'r rhai a'i gwrandawai ei fod wedi gwneud defnydd iawn o'i gyfleusderau.

Bore Iau am 9 cyfarfyddodd Pwyllgor y Gymdeithas o dan lywyddiaeth Mr. Ceredig Jones. Cadarnhawyd manylion y Pwyllgor o'r blaen yn y Wig. Darllenodd yr Ysgrifenydd ei adroddiad blynyddol, yr hwn a geir ar ddechreu y rhifyn hwn. Dengys y fantolen a ddarllenwyd gan y Trysorydd, Mr. J. Evans, nad oedd y tanysgrifiadau a'r casgliadau ddim mor foddhaol ag maent wedi bod. Er mwyn gochelyd lleihad yn y *grants* bu y Llywydd mor garedig a gwneud y diffyg i fyny trwy drosglwyddo swm sylweddol i'r drysorfa mewn ychwanegiad i'w danysgrifiad arferol. Gyda'r help amserol hwn bu y Pwyllgor yn alluog i wneud yr un *grants* eleni ag a wnaed y llynedd gyda'r eithriad fod y swm o £4 wedi ei roddi i'r achos ieuanc yn Tylorstown yn lle i Gelli-onen sydd heb weinidog ar hyn o bryd. Pasiwyd fod y taliadau arferol yn cael eu gwneud mewn cysylltiad a'r YMOFYNYDD, a bod y swm o £5 yn cael ei dalu i'r Parch. J. Thomas, Rawtenstall, fel cydnabyddiaeth am ei gynorthwy rheolaidd fel gohebydd am yn agos i dair blynedd. Nid yw'r *Postal Mission* Cymreig, er cymaint yr ymdrech i'w wneud yn hyspys trwy y newyddiaduron wedi bod yn llwyddianus. Mae yr ymofyniadau am lyfrau, &c. wedi bod yn ychydig a gwasgarog, ac mae'n amlwg nad oes dim i'w fedi yn bresenol yn y maes Cymraeg yn y cyfeiriad hwn. Mae y cynllun wedi ei daflu heibio mewn canlyniad, er mwyn canolbwyntio ein hymdrechion, ni a obeithiwn, i wneyd YR YMOFYNYDD yn gyfrwng cenhadol mwy effeithiol nag mae wedi bod erioed o'r blaen. Y swyddogion am y flwyddyn nesaf ydynt y Parchn. T. J. Jenkins, Hinckley, Llywydd ; Cadben Davies, C.C., Islywydd ; yr Ysgrifenydd a'r Trysorydd fel o'r blaen. Ni phenderfynwyd pa le y bydd y cwrdd blynyddol nesaf, a gadawyd y mater yn llaw yr Ysgrifenydd. Bydd cwrdd chwarterol yr Hydref yn Rhydygwin—y manylion i ymddangos eto.

Am 11 cymerwyd y gwasanaeth gan y Parch. J. Davies, Alltyplacca, a thraddodwyd yr anerchiad blynyddol gan y Llywydd, yr hwn a ddewisodd fel testyn, "Sirioldeb mewn Crefydd." Yr oedd y fath anerchiad i'w ddisgwyl oddiwrth wr o alluoedd Mr. Jones gyda'i fedrusrwydd a'i brofiad addfed yn gystal a'r dymher siriol a gobeithiol ag mae pum mlynedd ar hugain o bregethu Undodiaeth wedi ysprydoli yn ei galon. Yr oedd yn sylw a wnaed yn fynych yn ystod y dydd fod ei acen Gymreig yn parhau mor bur, er gwaethaf ei hir arosiad yn Lloegr, ac yn cadw y nodwedd iraidd a dilwgr a berthynai iddi pan yn fachgen ieuanc yn nyffryn Aeron ddeugain mlynedd yn ol. Ar gynygiad y Parch. D. Rees yn cael ei gadarnhau gan y Parchn. Lewis Williams a Hathren Davies, pasiwyd pleidlais wresog o ddiolchgarwch i Mr. Jones am ei anerchiad yn gystal a'i wasanaeth gwerthfawr fel Llywydd am y flwyddyn.

Am 2 o'r gloch, cyfarfyddodd yr adran ddirwestol mewn cynhadledd, o dan lywyddiaeth y Parch. R. C. Jones, Llanbedr, pryd y darllenwyd papyr amserol ac ymarferol gan y Parch. E. O. Jenkins ar drefniant

yr adran, sefydliad *Bands of Hope*, &c Siaradwyd gan y Cadeirydd, y Parch. Hathren Davies, J. Morgan, Tonypandy, ac ereill. Mabwysiadwyd mesurau i wneud yr adran hon yn fwy effeithiol fel cangen o'r Gymdeithas. Etholwyd y Parch. J. Hathren Davies yn Gadeirydd a'r Parch. E. O. Jenkins yn Ysgrifenydd. Mae gair o gydnabyddiaeth wresog yn ddyledus i'r cyfeillion yn Llwynrhydowen am eu "llafurus gariad" yn gofalu am angenion corfforol eu hymwelwyr lluosog dydd Iau. Yr oedd yn rhan dda o fwynhad y dydd i eistedd wrth ochr cyfaill o dan gysgod pabell neu yn yr awyr agored a chyfranogi o'r ymborth blasus a ddarparasid gan ddwylaw caredig.

NODION GAN YMWELYDD.

Y mae cyfarfodydd blynyddol y Gymdeithas Undodaidd Gymreig drosodd, a'u dylanwad, ai da ai drwg, wedi ei gipio gan yr awelon a fynwesant holl helyntion dyn. Pa fath argraffiadau gynyrchwyd ganddynt? Mwy na thebyg nad yr un peth yn mhawb; ond am danaf fy hun gallaf ddweyd fod yr argraffiadau yn hynod o ffafriol. Bu cynaliad y cyfarfodydd yn achlysur i mi dalu fy ymweliad cyntaf a gwlad y *Cardis*, ac yr wyf yn prysuro i'w llongyfarch ar gyfoeth dihysbydd ei golygfeydd rhagorol, y rhai a gynyrchant rhyw bêr-lesmair yn yr ymwelydd y tro cyntaf y cenfydd hwynt; a chyn y gorphenant eu gwaith arno, y mae "mudandod yn rhoi cenad i'w enaid lefaru, ti wyddost beth ddywed fy nghalon." Ai tybed mai haelionusrwydd natur yn y parthau hyn o'r wlad yw y croesaw digymar estynir gan y preswylwyr i ddieithriaid? Yr oedd yr ymweliad hwn yn rhyw fath o sylweddoliad o olygfeydd a gyflenwid gan YR YMOFYNYDD er ys yn agos i ddeng mlynedd ar hugain, a phan y darfu i mi osod fy nhraed ar y tir teimlwn fod rhyw eneiniad nef-anedig ar y lle. Sisialai yr awelon tyner enwau parchus Gwilym Marles a'r hen wron o Gastell Hywel, y rhai fu'n digarregu a braenaru y tir, a'i addasu i dderbyn yr had. Anmhosibl dychmygu am unrhyw fan y gellir gyda mwy o briodoldeb ddweyd, "eraill a lafuriasant, chwithau a aethoch i mewn i'w llafur hwynt." Mae angylion y nef wedi peraroglu eu gorphwysfanau. Yr oedd y ddau benderfyniad basiwyd yn y *business meeting* dydd Iau yn dangos yn eglur ddigon nad yw Undodiaid y presenol yn ddall i'w dyledswyddau gwleidyddol. Mewn llywod-ddysg, fel yn mhob maes arall, y mae genym ddyledswyddau i'w cyflawnu, ac ofer ydyw plethu y breichiau a disgwyl i eraill i adeiladu ein tai i ni. Pe buasai llai o hyny wedi ei wneud yn ystod yr ugain mlynedd diweddaf, ni buasai cyflwr y wlad yr hyn ydyw heddyw. Bu y tadau Undodaidd yn ffyddlon i egwyddorion sylfaenol rhyddid. Y mae hanes addysg yn y wlad hon yn dangos yn bur eglur nad oes y fath beth yn bosibl a'r *half-way house* y myn rhai Anghydffurfwyr i ni gredu yn ei ymarferoldeb yn nglŷn a chwestiwn addysg. Bob tro y bydd amodau addysg yn gofyn ail-drefniant, cyfyd y "cwestiwn crefyddol" ei ben fel geri marwol i wenwyno yr holl awyrgylch addysgawl. Aberthir lles y cyhoedd ar allorau mympwy, a rhwystrir blaenfynediad cenedlaethol wrth wastraffu yr amser i hollti blew duwinyddol dynion na wyddis pa un ai ieir ai ceiliogod ydynt. Un o ddau gwrs sydd yn bosibl, naill ai derbyn amodau addysg fel y eu myntumir gan yr Eglwyswr, neu daflu y *ballast* "crefyddol" dros y bwrdd, a mabwysiadu *policy* y *secular educationist*. Yr ail benderfyniad, ar gynygiad y diymhongar a'r diffuant Gadben Davies o Rhydowenfach, sydd berthynas agos i'r cyntaf, sef *no taxation without representation*, ac ys dywed y Cadben, *no representation without taxation*. Dyma eg-

wyddorion gostiodd fêr eu hesgyrn i flaenredegwyr y gorphenol, ond yn herwydd diofalwch y wlad yn ystod y blynyddau diweddaf y mae y llywodraeth bresenol, *the champion of caste and privilege*, wedi eu gwneud agos yn gydwastad a'r llawr. A ganiatawn i'r etifeddiaeth sydd wedi ei hymddiried i ni gan oreugwyr yr oesau gael ei llwyr ddinystrio? Gobeithio na.

Anerchiad yr hen lywydd. Llawenydd digymysg i mi oedd gweled yr hen lywydd yn dirwyn ei swydd i fyny drwy ddarllen papyr ar "Siriol-deb mewn Crefydd." Y mae blynyddoedd meithion oddiar y gwelsom y boneddwr hwn o'r blaen, a gellir bod yn sicr nad yw byw y tuhwnt i Glawdd Offa yn fanteisiol i gadw i fyny ystwythder Cymreig. Ond nid yw byw yn ngwlad y Sais yn y mesur lleiaf wedi peri iddo "anghofio'r graig o'r hon ei naddwyd," nac ychwaith i sychu i fyny ffrydlifoedd cyfoethog serch ei galon tuag at fangre ei enedigaeth. Duw yn rhwydd i chwi, Syr, yw dymuniad pawb.

Y Pregethu.

Pe gwybyddwn na thramgwyddwn neb, carwn ddweyd gair neu ddau ar y dull o bregethu fabwysiedir yn fwyaf cyffredin yn ein mysg ni fel enwad. Gwn mai mater *delicate* iawn ydyw hwn i'w drafod ar dudalenau Yr Ymofynydd; ond fy mharch dwfn i fuddianau yr enwad sydd mor anwyl genym sydd yn fy nghymell i wneud hyny. Os oes rhywun yn amheu fy niffuantrwydd carwn i hwnw beidio gwneud sylw o'r sylwadau hyn.

Gyda golwg ar y mater, nid oes genyf gwyn o gwbl yn erbyn dim a ddywedwyd o'r bregeth gyntaf nos Fercher hyd yr olaf nos Iau. Cynwysai llawer o honynt "hufen myfyrdod." Ond y mae genyf gwyn, a chwyn sylweddol hefyd i'm tyb i, yn erbyn y dull o bregethu, sef darllen y papyrau. Paham y mae cymaint fwy o hyn yn mhlith yr Undodiaid nag sydd yn yr enwadau ereill? A gawn ni gredu fod y genadwri Undodaidd o angenrheidrwydd yn oer a difywyd, a chwbl amddifad o unrhyw apêl at deimladau tyneraf y galon ddynol?

Cydnabyddir yn gyffredin fod llawer iawn fwy o gydrywiaeth rhwng nofelau Dickens a Walter Scott a'r genadwri Undodaidd na'r gyfundraeth Iawnffyddol, ac eto i gyd ceir ffrydiau o hyawdledd yn byrlymu allan o honynt fel ffynonhau o'r mynyddoedd. Drachefn y mae Dameg y Mab Afradlon, ar yr hon y mae y wedd hono o Undodiaeth ag sydd yn gosod allan berthynas Duw a'i blant, yn orlawn o'r *pathetic*. Yn sicr, ynte, nid am fod y genadwri Undodaidd yn amddifad o angerddoldeb teimlad y mae y gweinidogion mor ddybynol ar y "papyr." Pa beth, ynte, all fod yn cyfrif am dano? A yw y gweinidogion Undodaidd wedi eu cynysgaethu a'r gallu o fynegiant (*power of expression*) i raddau llai na'u brodyr iawnffyddol? Nis gallaf yn fy myw gredu y fath sarhad. Ar feusydd addysg disgleiriant fel ser llachar y ffurfafen; yn eu gwahanol gymydogaethau dangosant eu bod yn feddianol ar reddfau moesol mor gynes a chydymdeimladol a neb pwy bynag. Paham ynte yr ymfoddlonant ar fod mor bell yn ol yn y cwestiwn pwysig o ddal cymundeb byw a chyffrous a'r cynulleidfaoedd ac nid bod a'u penau yn y papyrau yn barhaus? I'm tyb i, nid oes ond un atebiad: diffyg ymdrech yn unig ydyw. Y mae yn deilwng o sylw fod y rhai y dywedir eu bod wedi myned i fewn i'r weinidogaeth drwy ddrws y *back* yn gwneud ymdrechion canmoladwy yn y cyfeiriad gwir angenrheidiol hwn.

Un o'r Gynulleidfa.

CYMANFA GANU 1905.

Barchus Olygwyr,—Yn ngwyneb y gosodiadau disail a wneir am danom ac am gôr yr Hen Dŷ Cwrdd yn ymneillduo o waith y gymanfa ddiweddaf, teimlwn mai angenrhaid yw arnom roddi gair o eglurhad. Dywedwn ein bod ni yn y lle hwn wedi cymeryd dyddordeb mawr bob amser yn ein cymanfaoedd canu, ac wedi gwneud yr oll a allem i sicrhau eu llwyddiant, a gobeithio y credir ni mai trwy ofid blin y darfu i ni gymeryd y llwybr a wnaethom y flwyddyn hon. Trwy garedigrwydd Pwyllgor Morganwg penodwyd y naill o honom yn llywydd a'r llall yn ysgrifenydd, ac fel swyddogion taflem yr holl frwdfrydedd a feddem i waith y gymanfa, ac edrychem yn mlaen yn hyderus am wyl ardderchog. Yr ydym yn falch iawn o lwyddiant yr wyl. Wel, beth ydynt yr amgylchiadau a'n rhwystrodd ni i ymuno yn y gwaith? Wedi i ni dderbyn penderfyniadau pwyllgor Ceredigion yn taflu arnom ni, yn mhlith materion eraill, y ddyledswydd o ddewis arweinydd, galwyd pwyllgor yn nghapel Merthyr i fabwysiadu penderfyniadau Ceredigion ac i ethol arweinydd y gân. Danfonasid cyn hyn at bob eglwys i geisio ganddi gyflwyno enw y boneddwr a garasai hi ei hethol. Am flynyddau yr oedd Gellionen wedi rhoi ar ddeall i'r pwyllgor na fuasent hwy, oherwydd pellder, yn cymeryd un rhan yn nhrefniad y rhaglen, ond y buasent yn deyrngarol i bobpeth a basid. Mae y cytundeb hwn wedi ei gadw yn odidog, ac ar y dealldwriaeth hwn aed at y gwaith yn Merthyr. Dywedir ein bod ni am wasgu ein dewis-ddyn ar y pwyllgor. Y ffaith yw, gwrthododd ein côr enwi unrhyw arweinydd, ond gadawodd y cynrychiolwyr at eu rhyddid i bleidleisio fel y mynent. Pan ddaeth pwnc yr arweinydd, gan hyny, gerbron y pwyllgor, enwasom ni neb. Cafodd dau foneddwr eu henwi, sef y Parch. D. J. Evans a Mr. J. R. Evans, Cefn. Rheol y pwyllgor bob amser yw pleidleisio trwy y tugel, ac felly y gwnaed y tro hwn. Trodd y bleidlais o blaid yr olaf a enwyd, a thybiasom ni fod yr holl fater wedi ei derfynu yn dawel ac yn heddychol. Methwyd, fodd bynag, a chwblhau y gwaith yn nghyfarfod Merthyr, a bu raid galw y pwyllgor yn nghyd unwaith eto yn Abernant. Yr ydym yn deall, erbyn hyn, i ryw un neu ryw rai, yn union ar ol cyfarfod Merthyr ysgrifenu at rai personau yn yr eglwysi nad oedd ganddynt gynrychiolaeth yn Merthyr, yn taer apelio atynt anfon cynrychiolwyr i Abernant, ac i ddeisyf arnynt droi yn ei ol bwnc yr arweinydd, ac i bleidleisio dros foneddwr arall. Yr oedd hyn yn hollol anwybyddus i ni hyd nes cyrhaeddasom Abernant. Yno, cyhuddai y Parch. T. J. Jenkins, un o dri cynrychiolydd a ddaethant i fyny o Gellionen, y pwyllgor o wneud yn Merthyr yr hyn oedd yn groes i reolau y pwyllgor. Cyhuddai Mr. Jenkins yr ysgrifenydd, hefyd, am beidio anfon rhybudd i Gellionen, ond pan adgofiodd yr ysgrifenydd ef o'r cytundeb yr oedd Gellionen wedi gweithredu arno trwy y blynyddoedd, addefodd Mr. Jenkins fod hyny yn wir. Gwnaeth y cadeirydd ieuanc, Mr. D. R. Griffiths, bobpeth a allai er cadw heddwch, a thawelu tipyn ar y trybestod y mae yn ofid calon genym i edrych yn ol arno. Ni chymerodd cynrychiolwyr y Cefn unrhyw ran yn y gweithrediadau rhagor nag i ni ein dau ymddiswyddo fel *protest* yn erbyn y dull amheus y cariwyd pethau allan. Deallwn yn awr, nad oedd cynrychiolwyr Gellionen wedi eu hawdurdodi i ddod i Abernant gan nag eglwys na chôr. Gwn yr addefwch, Mri. Gol., na cheir trefn ar unrhyw fudiad, os gweithredir ar linellau fel hyn. A hyn, yn nghyd

a'r yspryd anfrawdol a amlygwyd yn Abernant a barodd i ni gilio o'r neilldu. Yr ydym wedi clywed i ni ddigio am i ni fethu cario allan ein rhaglen. Nid oedd genym raglen, na'r un fwyell i'w hogi. Unwaith eto datganwn ein gofid, i ni gael ein gorfodi gan yr amgylchiadau a nodwyd i beidio bod yn gyfranog o lwyddiant cymanfa Abertawe am 1905.

Yr eiddoch, &c.,

J. R. Evans,
J. Hathren Davies.

MARWOFION.

Mefhefin 18, yn 83 mlwydd oed, Harriet Hughes, Penty, Pencarreg. Cafodd ei dwyn i fyny yn Pentreshon, a hyny yn ol traddodiad gwlad ar gyfrif y berthynas (heb fod yn mhell) oedd rhyngddi a'r hwn oedd yn byw yno ar y pryd, sef Thomas Davies, neu fel y byddai yn cael ei adnabod oreu, Twmi, Pentreshon. Claddwyd ei gweddillion yn ymyl ei gwr yn mynwent Caeronen. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan offeiriad y plwyf ac yn y capel a'r fynwent gan weinidog y lle. Gadawodd nifer o blant mewn galar ar ei hol.

Mehefin 24, yn 18 mis oed, Gwenllian, anwyl ferch Evan ac Eleanor Jones, Manorafon, Llanwenog. Claddwyd yn mynwent Alltyplacca ; a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y gweinidog yn nghyd a'r Parch. D. Evans, Cribyn.

Gorphenaf 7, yn 29 mlwydd oed, Mary Evans, merch Evan a Mary Evans, Treherbert, Pencarreg. Er nad oedd ond ieuanc eto cariodd gorph afiach am lawer o flynyddau. Yr oedd yn ferch ieuanc ag iddi air da gan ei holl gydnabod. Gadawodd mewn galar ar ei hol dad, pedair chwaer, ac un brawd, a pherthynasau eraill. Claddwyd ei gweddillion yn ymyl ei mham yn mynwent Brondeifi. Yr oedd yn aelod selog gyda'r Bedyddwyr ; a gwasanaethwyd yn ei hangladd gan y Parch. D. Jones, Noddfa, yn cael ei gynorthwyo gan weinidog Brondeifi.

,MANION AC HANESION.

Cwmbach, Aberdar. — Cynhaliwyd yr Wyl De Flynyddol yma ar Llun y 26ain o Fehefin. Daeth lluaws o gyfeillion o bell ac agos yn nghyd, ac ymddangosai pawb fel pe yn mwynhau eu hunain, wrth gyfranogi o'r pethau da a barotowyd. Yn yr hwyr cafwyd cyngherdd yn y capel pryd y cymerwyd rhan gan rai o brif gantorion yr ardal. Y mae clod nid bychan yn ddyledus i'r gwragedd perthynol i'r capel am eu

parodrwydd i wneud pobpeth yn eu gallu er gwneud yr wyl y fath lwyddiant ag y bu.

DOWLAIS.—Dydd Sul, Mehefin 11, cynhaliwyd cyfarfod blynyddol yr eglwys uchod. Pregethodd y Parch. John Davies, Alltyplaca, yn nghyd a'r Parch. John Pennel Kane, y gweinidog. Cawsom gynulliadau lluosog yn cynwys nifer o bobl perthynol i'r gwahanol enwadau crefyddol yn y dref, ac am y pregethau yr wyf yn sicr eu bod wedi gadael argraff dda ar feddyliau y mwyafrif. Digon yw dywedyd fod Mr. Davies wedi pregethu yn deilwng o hono ei hun. Hir oes iddo i wasanaethu ei genedl yw dymuniad calon GWRANDAWR.

CENINEN GORPHENAF. — Da genym dro ar ol tro i alw sylw at y "Geninen," yr hon sydd yn profi ei hun yn wir gylchgrawn cenedlaethol. Mae ynddi rywbeth sydd yn cyfarfod a chwaeth pawb, ac fel hyny y dylai fod. Nid ydym yn proffesu ein bod wedi darllen yr oll o rifyn Gorphenaf. Disgynasom yn uniongyrchol ar draws yr erthyglau oedd yn appelio atom. Un o'r mwyaf dyddorol yw "Adgofion Hen Solffaydd," gan Mr. Eleazar Roberts,—adgofion sydd yn ein harwain at gychwyn mudiad nas gellir gosod gwerth arno mewn cysylltiad a cherddoriaeth y cysegr yn Nghymru. Mae rhywbeth yn annisgwyliedig yn mhenawd yr ysgrif nesaf—"Dyledswydd rhieni Cymru i ddysgu Cymraeg i'w plant," gan y Parch. J. Myfenydd Morgan, Vicer Llandudoch. Awgrymir fod y dyledswydd yn cael ei hesgeuluso, a rhoddir y rhesymau paham y dylid galw sylw neillduol ati. Credwn nad oes cymaint o achos cwyno yn awr ag sydd wedi bod ar y mater hwn. Mae ein boneddigion Cymreig wedi dychwelyd i raddau i'w teyrngarwch i'r hen iaith. Dysgir hi yn y colegau Cymreig, ffurfia ganghen bosibl yn yr arholiadau prif athrofaol, ac nid yw perygl y wialen yn awr yn bygwth y plentyn uniaith am siarad iaith ei fam yn yr ysgolion. Ond, mae lle mawr i wella, ac nid yw'r yspryd Saesneg coegfalch wedi ei ymlid ymaith i gyd eto. Pe amgen, ni fyddai y fath beth yn bosibl ag Ysgol Sul mewn pentref yn Sir Aberteifi heb un dosbarth Cymraeg yn perthyn iddi. Mae sylwadau Vicer Llandudoch am fwy nag un rheswm yn hynod bwrpasol i'r ysgol hon. Yn naturiol bydd pob Undodwr yn rhedeg ar ei gyfer at ysgrif y Parch. R. J. Jones, M.A., Aberdar, ar "Ddechreuad a Chynydd Undodiaeth yn Nghymru." Mae'n rhywbeth i synu ato ac i ddiolch am fod y fath erthygl yn dderbyniol mewn papyr fel y 'Geninen"—papyr ag y mae ei noddwyr gan mwyaf yn mhlith enwadau uniongred Cymru, ydynt wedi arfer edrych ar Undodiaeth fel heresi ddamniol, teilwng o ddim ond y *cold shoulder*, os nad o'r sarhad mwyaf gwatwarus a dirmygus ar lawer adeg. Ond wedi'n, mae y "Geninen" yn gylchgrawn cenedlaethol, a da genym fod y Golygydd yn actio i fyny i'r broffes hono, ac yn caniatau i un o Undodiaid blaenaf Cymru i olrhain hanes Undodiaeth fel *phenomenon* yn mywyd crefyddol un rhanbarth yn neillduol o'r Dywysogaeth. Nid oes eisieu dweyd dim am deilyngdod yr ysgrif. Clywsom hi yn cael ei darllen bron ar ei hyd, mewn cyfarfod wythnosol, yn nglyn ag un o'n capeli yn Sir Aberteifi, a theimlid ei bod yn dra dyddorol. Tybed, a oes rhyw awel *fresh* o'r "smotyn du" yn chwythu fel pe byddai, rhwng linellau yr englyn canlynol o waith Mr. Fred. Jones, B.A., Athrofa Bala-Bangor, geir ar dudalen 208 :—

"Y baban bach, heb wybod,—ei wên rydd
Yn nrws byd o drallod ;
Yn nghol ei fam angel-fod
Yw y bychan dibechod."

—CYMRO.

DR. GWENOGFRYN EVANS.—Bydd yn llawenydd gan ein darllenwyr glywed, a thebyg fod y rhan fwyaf o honynt wedi clywed yn barod, fod Prif athrofa Cymru wedi anrhydeddu Mr. Evans a'r radd o D.Litt. neu

Ddoethor mewn Llenyddiaeth, fel cydnabyddiaeth am ei lafur a'i wasanaeth fel ysgolor ac hynafiaethydd Cymreig. Gosodwyd yr anrhydedd arno mewn cyfarfod neillduol o'r Brifysgol yn Nghaerdydd, Mehefin 28ain, yn nghwmpeini Arglwydd Tredegar, Arglwydd Rendel, Mr. Joseph Chamberlain, Syr John Williams, M.D., a'r Proffeswr Henry Jones o Glasgow, y rhai a anrhydeddwyd yr un modd. Hir oes iddo i barhau yn ei lafurus gariad dros Gymru, Cymro, a Chymraeg.

Y Gymanfa Ganu yn Abertawe.—Da genym ddeall ar awdurdod nad oes amheuaeth yn ei chylch fod ymddygiad ein pobl ar yr achlysur uchod wedi gwneud argraff hynod o ddymunol ar swyddogion y rheilffyrdd. Y dystiolaeth glywsom oedd fod y *crowd* Undodaidd yn ngorsaf Abertawe wrth ddyfod i mewn ac wrth fyned allan yn *eithriadol* o foesgar a boneddigaidd. Gallwn gasglu nad yw *trips* crefyddol yn dod i fyny i'r safon yna hyd yn nod yn mlwyddyn y Diwygiad. Dywedir pethau hallt iawn am ein crefydd ni yn aml. Gadewch ini gofio er ein cysur fod ymddygiad teilwng yn dair rhan o bedair o grefydd, medd un dysgawdwr, ac yn dair rhan o bedair o fywyd, medd y llall.

Gwelliant Gwall. — Drwg genym ddarfod i "Tathos" wneud camgymeriad bychan wrth ysgrifenu hanes y Gymanfa yn y rhifyn diweddaf. Cawn ar ddeall mai Mr. David R. Griffiths ac nid ei frawd Mr. Gwilym Griffiths, ydoedd yr ysgrifenydd dros Sir Forganwg. Gwn y gwna'r brodyr faddeu yn rhwydd i "Tathos" am ei gamgymeriad anfwriadol. Felly, i Mr. D. R. Griffiths yn nghyd ag ysgrifenydd Ceredigion y mae'r clod a'r diolchgarwch yn ddyledus am yr yni a'r gweithgarwch ddangoswyd ganddynt mewn cysylltiad a'r Gymanfa.

"Sh" a "Si."—Camgymeriad dybryd sydd wrth wreiddyn yr ensyniad ddatgenir gan "S.N.S." yn y rhifyn diweddaf o'r Ymofynydd. Ni welais un Gogleddwr erioed nas gallai swnio yr estronsain "sh," ac yr ydwyf wedi byw yn Ngogledd Cymru am yn agos i haner cyntaf fy oes, hyny yw, tua deunaw mlynedd. "Shàràd" ddywed pob Gogleddwr anysgedig am "siarad," a "Shon" ddyweda am yr hen frawd Sion, a "Shan" y geilw 'i hen wraig. A fu S.N.S. yn Ngogledd Cymru ryw dro, tybed? Nis gwn am un sain nas gall Gogleddwr ei swnio; gwn am un, o leiaf, nas gall yr Hwntw. Paham y dywed yr olaf, "în dîn" yn lle un dyn. —Delta Evans.

Aberdar.—Deallwn fod gorfoledd mawr y dyddiau hyn yn y gwersyll iawnffyddol yn Aberdar, oherwydd fod y prifathraw Drummond, o Goleg Manchester, Rhydychen, meddent hwy, wedi myned drosodd at Drindodiaeth. Gall ein darllenwyr fod yn sicr nad oes gronyn o wirionedd yn yr hanes. Y peth diweddaf glywsom am Dr. Drummond oedd ei fod yn ddiwyd yn ysgrifenu llyfr ar yr olwg Ryddfrydig ac Undodaidd ar grefydd. Tebyg mai adsain bell ydyw'r stori o'r hyn sydd yn ffaith mewn cysylltiad a gweinidog arall llai adnabyddus sydd newydd fyned drosodd at yr Annibynwyr—y Parch. Dr. Warschauer o Clifton. Rhydd y digwyddiad hwn gipolwg i ni sut mae gogwyddiad pethau y dyddiau hyn. Gofynwyd i Dr. Warschauer yn gyhoeddus gan un o'r gynulleidfa paham yr oedd wedi cymeryd y cam hwn, a oedd wedi newid ei olygiadau. Yr atteb oedd, nag oedd o gwbl, ei fod yn gymaint o Undodwr ag oedd wedi bod erioed, a bod yr Eglwys Gynulleidfaol yn Anerley, oedd wedi rhoddi gwahoddiad iddo, yn deall hyny yn hollol. Os oes rhyw gysur i Drindodiaid culion a rhagfarnllyd yn yr hanes, mae pob croesaw iddynt gymeryd ato. Drwg genym golli Dr. Warschauer, yr oedd yn un o'r dynion ieuanc mwyaf addawol yn yr enwad; ond yn wyneb y golled, dylem gofio fod yn agos i'r drydedd ran o'n gweinidogion presenol yn y wlad hon wedi dyfod drosodd o enwadau eraill, yn mysg y rhai mae dynion fel Stopford Brooke, Chas.

Hargrove, Page Hopps, Frank Walters, &c., yn sefyll yn y rhestr flaenaf. Yn yr Essex Hall Year Book am 1905, gwelir fod yn mhlith y gweinidogion saith o Gymry a gawsant eu dwyn i fyny mewn enwadau eraill, a thri o honynt yn weinidogion ordeiniedig pan y daethant drosodd. Maddeuer i ni fod sectyddiaeth ynfyd Aberdar wedi ein temtio i wneud crybwylliad am bethau fel hyn.

YMHOLIAD.—Yn mha le y derbyniwyd D.D. a C.E. fel aelodau au gwreiddiol?—Dywed Mr. D. E. Jones yn ei Hanes Plwyfi Llangeler a Phenboyr (t. 225) i ddau o bregethwyr enwocaf Cymru, sef David Davies, Abertawe, a Christmas Evans gael eu derbyn yn aelodau yn Mhenrhiw tua 1786. Y Parch. W. Jenkin Davis yn ei Hanes Plwyf Llandyssul (t. 127), a ddywed i'r Parch. D. Davis dderbyn Christmas Evans yn aelod yn Llwynrhydowen pan yr oedd tua 18 oed. Yn hanes bywyd Christmas Evans gan y Parch. Paxton Hood (t. 43) dywedir iddo ymaelodi yn Llwynrhydowen. Yr un peth a ddywedir yn y "Cofiant" gan W. Morgan, Caergybi, ac yn "Cymru" Owen Jones. Tebyg y buasai D. Davies a C. Evans yn aros gydag enwad y gwr enwog o Gastellhywel oni buasai'r ffaith nad oedd dim agoriad i bwlpud yr enwad hwnw i un nad oedd wedi cael addysg athrofaol. Sut mae cysoni busnes yr aelodaeth? Pa un sy debycaf o fod yn wir?—R.J.J.

Y PLENTYN A STORI JONAH.—Dywedai mam unwaith wrth ei mab bychan yr ystori hono yn nghylch Jonah, ei fod wedi treulio tridiau a thairnos yn mol y morfil. Yr oedd Johnnie, gyda llaw, yn blentyn ieuanc iawn, ac nid oedd yn ddigon hen i seinio yr R fel y dylai. Ar ol i'w fam ddybenu dweyd y stori, siglodd y plentyn ei ben a dywedodd, "Allai Jonah ddim cael ei anal yn y dw'l." Yr oedd hyn yn ergyd ofnadwy i'w fam. "Mae yn y Beibl," meddai, "ac mae'n rhaid i chi ei gredu." "Ond mama fach," meddai'r plentyn, "allai Jonah ddim cael ei anal yn y dw'l." Aeth ei fam i nwydau gwylltion, ac anfonodd y plentyn i'r gwely heb ei swper. Bore dranoeth, pan y daeth i lawr i frecwast, gofynodd ei fam iddo, "A ydych chi yn credu nawr fod Jonah wedi bod dridiau a theirnos yn mol y morfil?" "Rwyf wedi treio a threio," meddai yntau, "trwy'r nos, ond 'doedd dim ffordd i Jonah i gael ei anal yn y dw'l." Felly cafodd ei anfon yn ol i'w ystafell i aros yno hyd nes y byddai'n credu. Bob yn dipyn aeth ei fam i fyny i edrych faint o gynydd oedd e' wedi wneud fel uniongredwr, ond yr unig atteb gafodd oedd, nas gallai Jonah byth gael ei anal yn y dw'l. Ymddangosai'r achos yn hollol ddiobaith, a galwyd yr offeiriad i fewn. Dywedodd ef wrth yr amheuwr bychan, ei fod yn blentyn drwg iawn, ac os na fyddai'n gwella, y byddai yn sicr o fynd ar ei ben i uffern. Dychrynodd hyn y plentyn yn enbyd a dechreuodd grio. Meddyliodd yr offeiriad yn awr fod pob peth yn iawn, ac wrth ymadael, dywedodd wrth y fam, y cawsai fod y plentyn wedi edifarhau yn llwyr, Aeth i fyny drachefn, a dywedodd. "Johnnie bach, yr ydych yn siwr o fod yn fachgen da yn awr, yr ydych yn siwr o gredu y cwbl am Jonah." "Odw, odw, mama fach, meddai'r plentyn, "rw'i am fod yn fachgen da, ond—ond—ond allai Jonah byth gael ei anal yn y dw'l."—*O Fywgraffiad y Parch. Dr. Morneric.*

BWRDD Y GOLYGWYR. Mae a ganlyn mewn llaw ac yn disgwyl eu tro:—Dringfa St. Awstin, IV—Y Siartiaid—Llyfr Mawr ar Destyn Mawr, II—Darlithiau Syr Oliver Lodge ar Addysg—Adolygiad—Ysgub o nodion oddiwrth T.C.U., Ap Ioan, &c. Diolch yn fawr. Hefyd gohirir "Congl Gwybodaeth Gyffredinol" hyd y nesaf.—*Gol.*

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

DO YOU KNOW

A GOOD THING FOR—

HEADACHE, TOOTHACHE, and NEURALGIA?

Is a question often asked and, as a rule, every person suggests a different remedy. As a guide to all sufferers of these distressing complaints, we have no hesitation in recommending . .

DAVIES' NERVINE POWDERS.

One dose generally relieves the most agonising pain.

Sold in Boxes 1s. 1½d. each post free.

From THOS. DAVIES, M.R.P.S.,
Chemist, Llandyssul.

YOUR EYESIGHT.

Is a most precious gift. If it is defective do not let it suffer from want of

SUITABLE GLASSES.

Being in possession of the most approved instruments, the sight can be accurately tested.

Sufferers should lose no time

IN CONSULTING

D. JONES

Qualified by Examinations, London.

11, HIGH STREET,
(Opposite Royal Oak Hotel),

LAMPETER.

WEDDING RINGS. RELIABLE WATCHES.

Lowest Cash Value.

☞ Persons that cannot call will do wise to write.

Thos. Jones & Son, Llandyssul,

Have the Largest Stock and Best Selection of

BOOTS AND SHOES

In the Town.

Men's from 3/6 to 17/6; Ladies' and Children's from 1/11 to 12/6.

Sole Agents for the well-known

HOLD-FAST BRAND.

Thousands of Testimonials.

Hand-sewn made to measure. Repairs neatly done & cheap.

ROBIN THE NEW STARCH
Reckitt's Blue.
ZEBRA GRATE POLISH.

ALBION, LLANDYSSUL AND PENCADER.

BOOTS, SHOES, AND SLIPPERS,

The Largest and Best Selected Stock in the Three Counties.

Sole Agent for the Dry Foot Brand. Acknowledged to be the Best Boot in the Market. Every pair guaranteed.

Repairs neatly and cheaply done by experienced men on the premises.

GRIFFITH DAVIES.

EVANS BROS.,

Manchester House, Llandyssul.

TAILORS, OUTFITTERS, HATTERS, HOSIERS, &c.

A large Assortment of Gent's and Youths' Rainproof Coats.

Mourning Orders promptly executed.

An Inspection will be much appreciated.

Cambrian Factory, Lampeter.

DAVIES BROS.'
BOOTS & SHOES

ARE POPULAR IN ALL TOWNS.

WHOLESALE AND RETAIL.

NEW GARDEN & AGRICULTURAL SEEDS.

The Best Varieties. Proved and Tested for Growth and Quality.

Fruit Trees, Roses, Ornamental Trees & Shrubs.

Catalogues Free.

Funeral Wreaths, Crosses, Wedding Bouquets, &c.

HARRY COYSH, Nott Square, Carmarthen.

25 years practical experience in Home and Foreign Nurseries and Seed-growing Establishments.

A very Choice Selection of Artificial Wreaths always in Sotck.

COMMERCE HOUSE

LAMPETER.

D. NUN DAVIES,

. . FOR . .

Millinery, Capes, Jackets, Costumes & Furs

OF THE NEWEST STYLES.

Henry Thomas & Sons,

GENERAL DRAPERS,

'THE EMPORIUM,' 2, GUILDHALL SQUARE,

CARMARTHEN.

Ground Floor.

Linen, Cotton and Woollen Goods, Dresses, Silks, Hosiery, Gloves, Laces, Ribbons, Trimmings, and Gents' Mercery, Linoleums, Carpets, and General Furnishing.

Show Rooms.

The Largest and Most Selected Stock in the District of Mantles, Jackets, Costumes, Furs, Ladies' and Children's Underclothing of Every Description. A Grand Show of English and French Millinery.

☞ Dressmaking and Millinery Workrooms under Most Competent and Experienced Management.

LLANDYSSUL COUNTY SCHOOL

(FOR BOYS AND GIRLS)

Head Master: WILLIAM LEWIS, M.A., Cantab.

Late Foundation Scholar and Prizeman of Queens' College, Cambridge; Wrangler 1890.

Mistresses: Miss Myfanwy Jones, B.A., Honours, Wales;
Miss Lena Jones, B.A., Wales; Cambridge Teachers' Diploma.

Classics and Modern Languages: J. Keble Hudson, M.A. (Oxon.).
Late Open Classical Scholar of Wadham College Oxford; 1st Class in Lit. Hum., 1890.

Science: A. C. Robinson, B.Sc. (Durham).

Drawing: Wm. Jones, A.R.C.A., (Lond.), of the Carmarthen School of Art

Instrumental Music: Miss Delia Williams, L.L.C.M.

Vocal Music: Rev. T. Arthur Thomas.

Laundry and Cookery: Miss E. W. Williams.
First Class Diplomas in Laundry and Cookery

Tuition Fee: £1 per Term or £3 per Annum. Music (Pianoforte) £1 1s. per Term.

Implements for all kinds of good farming.

First Class Ironmongery

FOR THE

FARMER, BUILDER, AND HOUSEHOLDER,

AT

WILLIAM JAMES',

IRONMONGERY AND IMPLEMENT DEPOT,

LLANDYSSUL.

ALSO AT NEW QUAY.

TYSSUL STORES. LLANDYSSUL.

D. CHANNING THOMAS,

GROCER, TEA DEALER & GENERAL MERCHANT.

Try D. C. T.'s TEAS—3 different blends of every price. One sure to please
Prices—1/8, 2/2, and 2/6. Quality at price cannot be beaten.
Write for Free Sample.

This Space To Let.

Apply—

EDITORS, LLANDYSSUL.

BEN EVANS & COMPY.

Are now making a Grand Display of FURNITURE and FURNISHING MATERIALS.

Artistic Furniture for Halls and Offices.
Artistic Furniture for Drawing and Dining Rooms.
Artistic Furniture for Bedrooms.

FURNITURE REMOVED. ESTIMATES FREE.

BEN EVANS & COMPY.

For the Largest Selection of Brussels, Axminster, Velvet Pile, Tapestry, Turkey and Oriental Carpets, Turkey, Persian, Japanese, Scinde and Turkestan Rugs, Painted Back Oilcloths, Cork Carpets and Inlaid Linoleums. Carpets & Floor Coverings, Made & Laid Free of Charge.

BEN EVANS & COMPY.

Hold a well-assorted Stock of Bedsteads and Bedding, Domestic Ironmongery, Hollow-ware, Brushes & Turnery, Fire Irons, Baths, Lamps, Table Glass, Breakfast, Dinner and Tea Services, together with a Beautiful Selection of Silver and Electro-Plated Goods, suitable for Wedding Presents.

Furniture, Carpets, &c., to the value of £10 and upwards, Carriage Paid to nearest Railway Station.

BEN EVANS & COMPY.

Have always on hand a First Class Stock of Irish Table Linen, Irish, Barnsley and Cotton Sheetings, Embroidered and Hemstitched Sideboard and Tray Cloths, Bedspreads, D'oyleys, &c., &c.

Drapery Parcels to the value of 20s. and upwards, Carriage Paid.

ILLUSTRATED CATALOGUE POST FREE.

BEN EVANS & CO., LTD. SWANSEA.